**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

# Rheoli Grantiau yng Nghymru – Adroddiad Terfynol

Mehefin 2013

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
**www.cynulliadcymru.org**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: 029 2089 8597 / 8032
Ffacs: 029 2089 8021
E-bost: Pwyllgor.Cyfrifoncyhoeddus@cymru.gov.uk

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2013
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

# Rheoli Grantiau yng Nghymru – Adroddiad Terfynol

Mehefin 2013

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

**Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus**
Sefydlwyd y Pwyllgor ar 22 Mehefin 2011.

**Pwerau**
Nodir pwerau'r Pwyllgor yn Rheolau Sefydlog Cynulliad Cenedlaethol Cymru a nodir swyddogaethau penodol y Pwyllgor yn Rheol Sefydlog 18 (ar gael yn **www.cynulliadcymru.org**). Yn benodol, caiff y Pwyllgor ystyried adroddiadau gan Archwilydd Cyffredinol Cymru ar gyfrifon Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus eraill, ac ar yr economi, a pha mor effeithlon ac effeithiol y caiff adnoddau eu defnyddio wrth gyflawni swyddogaethau cyhoeddus.

Mae gan y Pwyllgor bwerau statudol penodol hefyd o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ynghylch penodi'r Archwilydd Cyffredinol, ei gyllideb ac archwilwyr y swydd honno.

**Aelodau cyfredol y Pwyllgor**



**Darren Millar (Cadeirydd)**
Ceidwadwyr Cymreig
Gorllewin Clwyd



**Mohammad Asghar (Oscar)**
Ceidwadwyr Cymreig
Dwyrain De Cymru



**Jocelyn Davies**
Plaid Cymru
Dwyrain De Cymru



**Mike Hedges**
Llafur Cymru
Dwyrain Abertawe



**Sandy Mewies**
Llafur Cymru
Delyn



**Julie Morgan**
Llafur Cymru
Gogledd Caerdydd



**Jenny Rathbone**
Llafur Cymru
Canol Caerdydd



**Aled Roberts**
Democratiaid Rhyddfrydol Cymru
Gogledd Cymru

Roedd yr Aelodau canlynol hefyd yn aelodau o'r Pwyllgor yn ystod yr ymchwiliad hwn



**Gwyn R Price**
Llafur Cymru
Islwyn



**Lindsay Whittle**
Plaid Cymru
Dwyrain De Cymru



**Leanne Wood**
Plaid Cymru
Canol De Cymru

# Cynnwys


**Rhagair y Cadeirydd** ..... **5**

**Argymhellion y Pwyllgor** ..... **7**

**Cefndir** ..... **11**

Pwy ydym ni? ..... 11

Pam yr aethom ni ati i gynnal yr ymchwiliad hwn? ..... 11

Ein hadroddiad interim ar Reoli Grantiau ..... 11

Cydberthynas Llywodraeth Cymru â Chymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan (AWEMA) ..... 12

**1. Graddfa, cymhlethdod a chostau ariannu drwy grantiau yng Nghymru** ..... **15**

Graddfa ariannu drwy grantiau yng Nghymru ..... 15

Canfyddiadau ac argymhellion adolygiad Llywodraeth Cymru o grantiau ..... 17

Adolygiadau o ddefnydd Llywodraeth Cymru o grantiau yn y dyfodol ..... 17

Darparu canllawiau i awdurdodau lleol ..... 18

Cymhlethdod grantiau yng Nghymru ..... 19

Gweinyddu grantiau ..... 20

Costau gweinyddol ..... 20

Cydymffurfio â Chod Ymarfer Llywodraeth Cymru i'r Trydydd Sector ..... 22

Blaendaliadau grant ..... 24

Setiau safonol o delerau ac amodau ..... 28

Un pwynt cyswllt i gael cyngor ar geisiadau am arian ..... 30

**2. Gwendidau yn y ffordd y mae Llywodraeth Cymru'n Rheoli Grantiau** ..... **32**

Diffyg ymdrin yn gyfunol â Rheoli Grantiau ..... 33

Cyfathrebu â darparwyr grantiau eraill ..... 38

Methiant i asesu a lliniaru risg yn ddigonol ..... 39

Monitro grantiau ..... 41

Monitro canlyniadau grantiau........................................................ 44
Dwysáu'r monitro .......................................................................... 48
Cadw cofnodion a chof corfforaethol ........................................ 51
Dwysáu'r monitro mewn perthynas â materion llywodraethu ...... 53
Cyfathrebu ag ymddiriedolwyr ...................................................... 56
Monitro mewn perthynas â chyrff ymbarél.................................... 62
Hyfforddiant fel bod modd monitro'n well.................................... 66
'Amodi' hawliadau grant awdurdodau lleol.................................... 69
Mynd i'r Afael â Thwyll ................................................................. 70
**3. Gweithredu mewn ymateb i dynnu sylw at faterion ...................... 72**
Ofni gweithredu.............................................................................. 72
Effaith 'ymyrraeth wleidyddol' mewn ymchwiliad........................... 75
Rhoi terfyn ar yr ariannu ............................................................... 77
Yr angen am eglurder yn ystod proses ddiddymu....................... 81
**Tystion ............................................................................................ 84**
**Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig ................................................. 86**

## Rhagair y Cadeirydd

Ar adeg o gyni economaidd, mae'n hanfodol fod Cymru'n cael y gorau o bob punt o arian cyhoeddus sy'n cael ei wario. Yn y cyd-destun hwn, rhoddodd adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol ym mis Tachwedd 2011, *Rheoli Grantiau yng Nghymru,* gipolwg amserol iawn ar y defnydd y mae Cymru'n ei wneud o grantiau fel ffrwd ariannu.

Mae Cymru'n defnyddio mwy ar grantiau na gweddill y Deyrnas Unedig (y DU). Fodd bynnag, nodai adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol fod llawer o gynlluniau grant yn rhy gymhleth, ac mai anaml y mae cyllidwyr na'r rhai sy'n cael grantiau yn dysgu gwersi o broblemau sydd wedi codi gyda chynlluniau'r gorffennol. Daeth yr Archwilydd Cyffredinol i'r casgliad fod i Brosiect Rheoli Grantiau Llywodraeth Cymru botensial i dorri costau a gwneud y broses grantiau'n fwy effeithlon, ond canfu hefyd, er bod rhai awdurdodau lleol wedi gwella'u prosesau rheoli grantiau, nad yw eraill yn gwneud yr un modd.

Yn sgil cyhoeddi adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol yn 2011, cododd pryderon ynglŷn â'r ffordd yr oedd grantiau a gâi eu darparu gan Lywodraeth Cymru i Gymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan (AWEMA) yn cael eu rheoli.

Ym mis Awst 2012, cyhoeddasom adroddiad interim am y sylw yr oeddem wedi'i roi i'r pryderon a godwyd gan adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol yn 2011. Rydym yn falch fod Llywodraeth Cymru wedi ymateb yn gadarnhaol i'r 15 argymhelliad a wnaethom yn yr adroddiad hwnnw – argymhellion a fyddai yn ein barn ni yn gwella'r ffordd y caiff grantiau eu rheoli yng Nghymru. Roeddem o'r farn ei bod yn amserol i Lywodraeth Cymru ddechrau ystyried yr argymhellion hynny yn 2012, yn hytrach na disgwyl am ein hadroddiad terfynol ar Reoli Grantiau.

Yn yr adroddiad hwn, ein hadroddiad terfynol ar Reoli Grantiau, rydym wedi pwyso a mesur y materion sy'n codi o ymateb Llywodraeth Cymru i'n hadroddiad interim ynghyd â thystiolaeth bellach a ddarparwyd inni gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru. Rydym hefyd wedi ystyried tystiolaeth yn deillio o adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ym mis Hydref 2012 ar *Gydberthynas Llywodraeth Cymru â Chymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan*. Roedd llawer o'r materion a godwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru yn yr adroddiad hwnnw'n adlewyrchu

gwendidau rheoli grantiau o'r math a nodwyd yn ein hadroddiad interim, ac yn adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol ym mis Tachwedd 2011 cyn hynny.

Yn yr adroddiad hwn rydym wedi gwneud argymhellion pellach a fydd yn ein tyb ni'n gwella prosesau rheoli grantiau Llywodraeth Cymru.

Fodd bynnag, un o'r pethau mwyaf y gall Llywodraeth Cymru ei wneud yw iddi hi ei hun roi blaenoriaeth i bwysigrwydd bod â gafael iawn ar ei phrosesau rheoli grantiau. Efallai fod pobl y tu allan i Lywodraeth Cymru yn meddwl amdani fel un endid: 'Llywodraeth Cymru'. Ond wrth reoli'i grantiau, mae'n ymddangos ar hyn o bryd fod Llywodraeth Cymru yn gweithredu fel casgliad o adrannau gwahanol, nad yw un o reidrwydd yn gwybod beth mae'r lleill yn ei wneud, neu beth maen nhw wedi'i wneud yn y gorffennol. Mae hyn yn golygu bod posibl i sefydliad gael amrywiaeth eang o grantiau gan wahanol adrannau, heb i'r gwahanol adrannau o reidrwydd fod yn ymwybodol o hynny. Mae'n hanfodol fod y diwylliant o fewn Llywodraeth Cymru yn newid, fel bod ei staff yn gweithio i 'Lywodraeth Cymru' yn gyntaf, a'u hadrannau unigol yn ail. Credwn y bydd cyflwyno system rheoli cwsmeriaid yn help yn y broses hon, ond bydd angen arweiniad trawsnewidiol hefyd gan yr holl reolwyr o fewn Llywodraeth Cymru.

Rydym yn hynod falch i Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru, yn ei ymddangosiad cyntaf gerbron y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, roi'r argraff bendant inni ei fod wedi ymrwymo i gyflawni newid o'r fath. Mater i Lywodraeth Cymru yn awr yw gwireddu'r addewid hwnnw, ac i ailfodelu'r tirlun rheoli grantiau yng Nghymru mewn modd cwbl sylfaenol.

## Argymhellion y Pwyllgor

Mae argymhellion y Pwyllgor i Lywodraeth Cymru wedi'u rhestru isod yn y drefn y maent yn ymddangos yn yr Adroddiad hwn. Ewch i'r tudalennau perthnasol yn yr adroddiad i weld y dystiolaeth a'r casgliadau ategol:

**Recommendation 1.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn nodi'n glir mewn adroddiad grantiau blynyddol:

- sut y cafodd grantiau unigol eu hadolygu yn ei Hadolygiad Rheoli Grantiau;
- pa opsiynau ariannu eraill a gafodd eu hystyried;
- pa sail resymegol a ddefnyddiwyd i benderfynu ar yr opsiynau ariannu mwyaf effeithiol ym mhob achos;
- sut y bydd yn parhau i fonitro cynnydd pob Adran o ran gweithredu argymhellion ei hadolygiad; a
- sut y mae'n gwerthuso pa mor effeithiol y mae cyrff allanol (pa un a ydynt yn gorff ymbarél sy'n cynrychioli sector, neu'n dosbarthu arian fel noddwr arweiniol ar brosiect) yn rheoli'r ffordd y caiff arian ei ddosbarthu i gyrff eraill. (Tudalen 17)

**Recommendation 2.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cynnal deialog gyda Swyddfa Archwilio Cymru, WCVA a CLlLC wrth ddatblygu canllawiau clir i awdurdodau lleol, i sicrhau eu bod yn ystyried rhychwant eang o ddulliau ariannu (yn cynnwys grantiau a chomisiynu cydweithredol) er cyflawni'r canlyniadau a ddymunir. (Tudalen 19)

**Recommendation 3.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn mynd ati'n rhagweithiol i ganfod a yw'r Cod Ymarfer ar ariannu'r Trydydd Sector wedi cael ei dorri, a'i bod yn nodi achosion o'r fath yn ei hadroddiad blynyddol ar reoli grantiau. Rydym yn disgwyl y byddai Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi ei hadroddiad blynyddol cyntaf o'r fath erbyn mis Rhagfyr 2013 fan hwyraf. (Tudalen 24)

**Recommendation 4.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau ei bod yn cynnwys unrhyw broblemau yn gysylltiedig â'i thempled talu ymlaen llaw yn ei hadroddiad blynyddol ar grantiau a'i bod hefyd yn rhoi gwybod i'r Pwyllgor Ariannu a Chydymffurfiaeth amdanynt. (Tudalen 26)

**Recommendation 5.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gweithredu i gynyddu a rhoi cyhoeddusrwydd i rôl y Ganolfan Ragoriaeth Grantiau fel un pwynt cyswllt lle ceir cyngor ar geisiadau am arian. Rydym yn disgwyl i hyn gynnwys datblygu'i gwefan gyhoeddus. (Tudalen 31)

**Recommendation 6.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn nodi amserlen ar gyfer cyflwyno system TG ganolog i reoli grantiau, ac ar gyfer rhoi system Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid ar waith.
(Tudalen 35)

**Recommendation 7.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru, yn ei hadroddiad blynyddol ar reoli grantiau, yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am ei chynnydd o ran:

- rhoi'r argymhellion yn yr adroddiad hwn, ein hadroddiad interim ac adroddiad Rheoli Grantiau 2011 Swyddfa Archwilio Cymru ar waith.
- newid ei ffordd strategol o ymdrin â rheoli grantiau, i sicrhau bod Llywodraeth Cymru'n gweithredu fel un corff yn ei pherthynas â chyrff allanol sy'n cael arian cyhoeddus.

(Tudalen 38)

**Recommendation 8.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cymryd camau i gwblhau ei deialog â'r Gronfa Loteri Fawr, y Comisiwn Elusennau, WCVA a chyrff priodol eraill i ddatblygu, cynhyrchu a gweithredu telerau cydweithio ar gyfer cyswllt rhwng gwahanol gyrff sy'n darparu grantiau sy'n arian cyhoeddus. (Tudalen 39)

**Recommendation 9.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru, law yn llaw â datblygu system rheoli cysylltiadau cwsmeriaid, yn datblygu fframwaith clir a chymesur i benderfynu ar y risg sydd ymhlyg mewn darparu arian cyhoeddus i gyrff allanol unigol.
(Tudalen 41)

**Recommendation 10.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn datblygu dull o ddwysáu ei threfniadau monitro, mewn ymateb i bryderon penodol yn ymwneud ag afreolaidd-dra ariannol neu faterion llywodraethu, a hynny'n cynnwys pan roddir 'mantais yr amheuaeth' i sefydliad. (Tudalen 51)

**Recommendation 11.** Rydym yn argymell, fel amod wrth ddyfarnu grant, fod Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i bob corff sy'n

cael grant roi gwybod i Lywodraeth Cymru am unrhyw newidiadau o bwys ymysg ei ymddiriedolwyr (er enghraifft, fod Cadeirydd neu draean neu fwy o'r ymddiriedolwyr wedi ymddiswyddo), am fethiant arwyddocaol i gynnal cyfarfodydd sy'n ofynnol yn ôl y cyfansoddiad, neu fod archwilwyr allanol wedi ymddiswyddo, gan roi eglurhad digonol i egluro'r cyfryw newidiadau.
(Tudalen 55)

**Recommendation 12.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi ystyriaeth gymesur i oblygiadau arwyddion rhybuddio posibl yng nghyswllt rheoli grantiau – megis newidiadau o bwys ymysg ymddiriedolwyr sefydliad, methiant i gynnal cyfarfodydd sy'n ofynnol yn ôl y cyfansoddiad, neu fod archwilwyr allanol wedi ymddiswyddo – gan gasglu gwybodaeth bellach yn ôl y gofyn (er enghraifft, defnyddio cyfweliadau ymadael). (Tudalen 55)

**Recommendation 13.** Rydym yn argymell, fel amod wrth ddyfarnu grant, fod Llywodraeth Cymru yn rhoi gofyniad ar bob corff sy'n cael grant i hysbysu Llywodraeth Cymru am unrhyw achosion pan gaiff y gofynion yn nogfen lywodraethu'r sefydliad ynglŷn â chyfarfodydd ymddiriedolwyr eu torri, gan roi esboniad digonol o hynny.
(Tudalen 56)

**Recommendation 14.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cynnwys manylion am atebolrwydd a chyfrifoldeb cymesur ymddiriedolwyr yn y gofynion ynghlwm wrth gyllid allanol (yn cynnwys arian grant). Rydym yn disgwyl i hyn gynnwys manylion ynglŷn â:

- yr amgylchiadau penodol pryd y dylai pryder am lywodraethiant sefydliad gael ei ddwyn i sylw Llywodraeth Cymru;
- y dull priodol er mwyn mynegi pryder am lywodraethiant sefydliad wrth Lywodraeth Cymru. (Tudalen 59)

**Recommendation 15.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cydnabod – er bod manteision yn gallu deillio o ddefnyddio cyrff ymbarél – y bydd unrhyw agwedd o reolaeth wael yn unrhyw un ohonynt yn arwain at fwy o risg ac ôl-effeithiau difrifol posibl i gyrff eraill sy'n dibynnu ar gefnogaeth (ariannol neu fel arall) gan y cyrff hyn. Pan fydd yn defnyddio corff ymbarél, dylai Llywodraeth Cymru ddatgan y rhesymau am ei ddefnyddio yn glir ac yn gyhoeddus.
(Tudalen 66)

**Recommendation 16.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gwerthuso effeithiolrwydd yr hyfforddiant y mae wedi'i gyflwyno ar gyfer Rheolwyr Grantiau. (Tudalen 69)

**Recommendation 17.** Rydym yn argymell, fel system arfer da, y dylai Llywodraeth Cymru roi ystyriaeth ddifrifol i ddatgelu naratif adroddiad i bartïon allanol, fel bod modd ei wirio o ran cywirdeb ffeithiol, pe bai gofyn iddi ymgymryd ag adolygiad tebyg. (Tudalen 77)

**Recommendation 18.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn mynegi'n glir ac yn benodol ei rhesymeg am roi terfyn – neu gwtogi'n sylweddol – ar yr arian y mae'n ei roi i unrhyw sefydliad sy'n cael grant, cyn i arian y sefydliad hwnnw gael ei derfynu (neu ei gwtogi'n sylweddol). Dim ond i'r sefydliad dan sylw y byddem yn disgwyl i'r rhesymeg hon gael ei darparu fel arfer. (Tudalen 80)

# Cefndir

**Pwy ydym ni?**

2. Mae'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn bwyllgor trawsbleidiol o Gynulliad Cenedlaethol Cymru, yn cynnwys 8 Aelod o blith y 4 plaid wleidyddol sy'n cael eu cynrychioli yn y Cynulliad.

3. Nid yw'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn rhan o Lywodraeth Cymru. Yn hytrach, ei rôl yw sicrhau bod gwaith craffu cywir a thrylwyr yn cael ei wneud ar wariant Llywodraeth Cymru.

4. Yn arbennig, gallwn ystyried adroddiadau gan Archwilydd Cyffredinol Cymru ar gyfrifon Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus eraill, ac ar ba mor ddarbodus, effeithlon ac effeithiol y cafodd adnoddau eu defnyddio wrth gyflawni swyddogaethau cyhoeddus.

5. Rydym yn cael Cyngor gan yr Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru, ac yn cael ein briffio ganddynt. Fodd bynnag, rydym hefyd yn annibynnol ar y swyddfa honno, ac mae gennym ein tîm bach ein hunain o swyddogion i'n cynorthwyo.

**Pam yr aethom ni ati i gynnal yr ymchwiliad hwn?**

6. Cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol ei adroddiad ar *Reoli Grantiau yng Nghymru 2011* ar 29 Tachwedd 2011. Yn ei adroddiad, dywedodd yr Archwilydd Cyffredinol fod costau gweinyddu grantiau yn gymharol uchel a bod llawer o grantiau'n cael eu rheoli'n wael, ac nad yw cyllidwyr na'r rhai sy'n cael grantiau yn dysgu o gamgymeriadau'r gorffennol. Fodd bynnag, canfu dystiolaeth glir hefyd o awydd i wella ymysg rhai cyllidwyr.

7. Roeddem o'r farn y byddai'n hynod o briodol inni gynnal ymchwiliad i'r materion sy'n cael eu codi gan yr adroddiad hwn.

***Ein hadroddiad interim ar Reoli Grantiau***

8. Cyhoeddwyd adroddiad interim ar Reoli Grantiau yng Nghymru gennym ym mis Awst 2012, yn nodi'r sylw yr oeddem wedi'i roi i'r materion hyn. Adroddiad 'interim' yn hytrach na 'therfynol' oedd hwn, oherwydd roeddem yn rhagweld y byddem yn cymryd rhagor o dystiolaeth ynglŷn â Rheoli Grantiau ar ôl i'n hadroddiad gael ei gyhoeddi, yng ngoleuni'r adolygiad a oedd ar waith gan Swyddfa

Archwilio Cymru i'r gydberthynas rhwng Llywodraeth Cymru a Chymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan.

9. Yn sgil cyhoeddi'n hadroddiad, croesawodd Llywodraeth Cymru'r canfyddiadau ynddo, a chyhoeddodd ei hymateb i'n hargymhellion.[1]

10. Mae'r adroddiad hwn yn ystyried ymateb Llywodraeth Cymru i'n hargymhellion gwreiddiol. Mae tystiolaeth gan y Gronfa Loteri Fawr, a Chymdeithas Llywodraeth Leol Gogledd Iwerddon, Swyddfa Archwilio Cymru a'r WCVA ar faterion cyffredinol yn ymwneud â rheoli grantiau hefyd wedi dylanwadu arno.

***Cydberthynas Llywodraeth Cymru â Chymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan (AWEMA)***

11. Yn ystod ein hymchwiliad i reoli grantiau, cododd pryderon penodol mewn perthynas â grantiau yr oedd Llywodraeth Cymru'n eu darparu i AWEMA. Yn arbennig, dywedodd ymchwiliad ar y cyd rhwng Gwasanaethau Archwilio Mewnol Llywodraeth Cymru a'r Gronfa Loteri Fawr:

> "…ni allwn roi unrhyw sicrwydd bod trefniadau priodol ar waith i ddiogelu a gwneud defnydd priodol o'r cyllid y mae Llywodraeth Cymru, WEFO a'r Gronfa Loetri Fawr wedi'i roi i AWEMA."[2]

12. Wedi hynny cyhoeddodd Swyddfa Archwilio Cymru adroddiad ar *Gydberthynas Llywodraeth Cymru â Chymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan* ar 18 Hydref 2012. Daeth yr adroddiad hwn i'r casgliad fod rheolaeth y Llywodraeth ar y grantiau yr oedd wedi'u rhoi i AWEMA rhwng mis Gorffennaf 2000 a mis Rhagfyr 2011 – taliadau gwerth £7.15 miliwn i gyd – a'r cyd-drefnu ar y grantiau wedi bod yn wan yn aml. Fodd bynnag, ni chanfu'r adroddiad unrhyw dystiolaeth o ddylanwad gwleidyddol amhriodol mewn penderfyniadau ariannu. Deuai'r adroddiad i'r casgliad hefyd fod Llywodraeth Cymru wedi ymateb yn gadarn i'r pryderon a ddaeth i'r wyneb ynglŷn ag AWEMA ym mis Rhagfyr 2011, ond fod delio â'r canlyniadau yn waith a oedd

[1] Llywodraeth Cymru, Ymateb Llywodraeth Cymru i Adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus: Rheoli Grantiau yng Nghymru – Adroddiad Interim

[2] Adroddiad ar y cyd gan Wasanaethau Archwilio Mewnol Llywodraeth Cymru a'r Gronfa Loteri Fawr: Adolygiad o Effeithiolrwydd y Llywodraethu a'r Rheoli Ariannol yng Nghymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan (AWEMA), Para 17.

wedi cymryd llawer o amser ac nad oedd y canlyniad i'r pwrs cyhoeddus yn amlwg eto.

13. Credem ei bod yn bwysig inni ystyried adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru fel rhan o'n hymchwiliad ehangach i Reoli Grantiau yng Nghymru. O ganlyniad, penderfynasom gymryd rhagor o dystiolaeth gan Lywodraeth Cymru a chyn Gadeirydd AWEMA (Dr Rita Austin) ar faterion yn codi o adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru a oedd hefyd yn berthnasol i'n hystyriaeth ehangach o reoli grantiau. Rydym yn ddiolchgar iawn i'r holl dystion am roi tystiolaeth inni.

14. Wrth benderfynu ystyried yr adroddiad hwn yng nghyd-destun ein hymchwiliad i Reoli Grantiau, roeddem yn ymwybodol o ddau fater.

15. Yn gyntaf, mae'n bwysig cydnabod ein bod wedi canolbwyntio ar yr hyn y mae cydberthynas Llywodraeth Cymru ag AWEMA – nad yw ond yn enghraifft – yn ei amlygu am wendidau ehangach ym mhrosesau rheoli grantiau Llywodraeth Cymru.

16. O ganlyniad, nid ydym wedi cynnal ymchwiliad i waith a hanes AWEMA. Ni chredem ei bod yn briodol i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ymchwilio i AWEMA ei hun, ac roeddem yn ymwybodol hefyd – adeg cyhoeddi'r adroddiad hwn – fod ymchwiliadau'r heddlu a'r Comisiwn Elusennau mewn ymateb i'r pryderon a ddaeth i'r amlwg tua diwedd 2011 yn dal i fynd rhagddynt. Rydym yn cydnabod i AWEMA gael llawer o lwyddiannau nodedig, ond rydym hefyd yn derbyn sylwadau Dr Rita Austin fod elfennau negyddol AWEMA mewn realiti yn mynd law yn llaw â'r elfennau cadarnhaol.[3] Yn wir, roedd Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru yn cytuno â hynny:

> "In AWEMA's case, most of the deliverables that were to be achieved through its funding method, for example, from the European structural funds, were successfully delivered… although a large sum of money—£7 million and more—was funded over a number of years, the majority of the outputs from that funding were delivered and were sound."[4]

[3] Cofnod y Trafodion, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 3 Rhagfyr 2012, Para 465

[4] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 3 Rhagfyr 2012, Para 54 ac 161

17. Fodd bynnag, rydym o'r farn ei bod yn briodol, er lles ehangach y cyhoedd, inni ganolbwyntio ar ba wersi y mae modd eu dysgu o'r ffordd y rheolodd Llywodraeth Cymru ei pherthynas ag AWEMA.

18. Yn ail, rydym yn cydnabod y bydd rhai efallai yn awgrymu ei bod yn annheg neu'n annoeth canolbwyntio'n amlwg ar berthynas Llywodraeth Cymru ag AWEMA, os yw'r grantiau y mae wedi'u darparu i gyrff eraill wedi cael eu rheoli'n effeithiol. Fel y dywedodd un o swyddogion Llywodraeth Cymru:

> "I know that a lot of public money has been put at risk and that mistakes were made, but we are just about to receive the annual audit report on European projects, and that will, for a second year running, show that there is an error rate of less than 1%. That reflects a lot of hard work by organisations across Wales in trying to make sure that they meet the compliance requirements of the European Commission."[5]

19. Fodd bynnag, credwn fod llawer o'r materion a ddaeth i'r amlwg yn adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ar 'Gydberthynas Llywodraeth Cymru ag AWEMA' yn dangos gwendidau gwaelodol, mwy sylfaenol, yn y ffordd y mae Llywodraeth Cymru yn ymdrin â rheoli grantiau.

[5] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 3 Rhagfyr 2012, Para 162

# 1. Graddfa, cymhlethdod a chostau ariannu drwy grantiau yng Nghymru

## Graddfa ariannu drwy grantiau yng Nghymru

20. Dywed adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol ar *Reoli Grantiau yng Nghymru 2011* fod Llywodraeth Cymru a chyllidwyr statudol eraill yng Nghymru yn ariannu mwy ar ffurf grantiau na rhannau eraill o'r DU. Mae'r adroddiad yn nodi bod grantiau'n ffordd bwerus o gyflawni amcanion polisi ond fod y nifer cymharol uchel o gynlluniau'n arwain at gostau gweinyddol uchel.[6]

21. Canfu adroddiad 2011 yr Archwilydd Cyffredinol fod Llywodraeth Cymru'n cynnal tua 480 o wahanol gynlluniau grant yn 2009-2010.[7] Deallwn mai cynlluniau grant i'r sectorau cyhoeddus a phreifat oedd y rhain yn bennaf. Nid yw'r union nifer o grantiau (yn hytrach na chynlluniau grant) sy'n bodoli yng Nghymru ar hyn o bryd yn glir.[8]

22. Dywedodd Llywodraeth Cymru wrthym fod i grantiau, fel ffordd o ariannu cyrff allanol yn gyfnewid am wasanaethau neu am gyflawni canlyniadau, nifer o fanteision o'u cymharu â dulliau cyflawni eraill. Er enghraifft, roedd grantiau'n cael eu hystyried yn ffordd neilltuol o effeithiol o alluogi gwneud gwaith archwiliol, ac yn rhoi mwy o sicrwydd y câi canlyniadau eu gwireddu. Dywedodd swyddogion hyn:

> "Welsh Ministers… see grants as an important policy tool that allows them to say what they want achieved and know pretty directly whether the grant has achieved those things." [9]

23. Yn ein hadroddiad interim, dywedasom fod angen lleihau'r nifer o grantiau yng Nghymru yn sylfaenol, yn ein barn ni. Fodd bynnag, roeddem hefyd yn cydnabod gwerth grantiau, ac yn credu eu bod yn fecanwaith gwerthfawr er cyflawni amcanion Gweinidogion.

---

[6] Swyddfa Archwilio Cymru, *Rheoli Grantiau yng Nghymru 2011,* Crynodeb, Para 1 a 2

[7] Swyddfa Archwilio Cymru, *Rheoli Grantiau yng Nghymru 2011,* Para 1.5 i 1.9 ac arddangosion 1 a 2. Yn arbennig, yn sgil cyhoeddi ein hadroddiad interim, dywedodd WCVA wrthym mai grantiau i'r sectorau cyhoeddus a phreifat oedd y rhain yn bennaf gyda dim ond cyfran fach yn ariannu gweithgarwch trydydd sector. Fodd bynnag, mae'n ymddangos bod llawer o'r gweithgarwch a'r sylw ers AWEMA wedi cael eu targedu – i raddau anghymesur – at grantiau i'r trydydd sector.

[8] PricewaterhouseCoopers LLP, 'Adolygiad o'r gost o weinyddu'r system addysg yng Nghymru – Cam 1.' Comisiynwyd gan Lywodraeth Cymru, Ebrill 2010, Tudalen 36.

[9] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 31 Ionawr 2012, Para 66-67

24. Yn hytrach nag awgrymu y dylai Llywodraeth Cymru ddefnyddio grantiau, neu na ddylai eu defnyddio, roeddem o'r farn y dylai Llywodraeth Cymru adolygu'i chynlluniau grant, a phenderfynu ai'r rhain – fesul un – oedd y dull caffael mwyaf priodol a chymesur er mwyn cyflawni amcanion Gweinidogion. Dywedasom nad yw dulliau caffael wedi'u cyfyngu i 'grantiau' neu 'gomisiynu'. Yn hytrach, awgrymasom fod ystod eang o opsiynau ariannu ar gael, yn cynnwys:

- grantiau y cymerir bod gan sefydliadau 'hawl' iddynt (heb yr angen i gystadlu amdanynt);
- grantiau cystadleuol (h.y. bod angen cystadlu amdanynt);
- grantiau amodol;
- grantiau gydag amodau cyfyngedig;
- comisiynu cydweithredol;
- tendro cystadleuol;
- benthyciadau; a
- dulliau buddsoddi eraill.

25. O ganlyniad, yn ein hadroddiad interim roeddem yn argymell:

- bod Llywodraeth Cymru'n sicrhau bod pob grant wedi cael ei adolygu erbyn 31 Rhagfyr 2013 fel rhan o'r Rhaglen Rheoli Grantiau, i sicrhau mai nhw yw'r ffordd fwyaf effeithiol o gyflawni amcanion Gweinidogion.
- bod Llywodraeth Cymru'n ystyried y rhychwant eang o opsiynau ariannu wrth adolygu effeithiolrwydd y grantiau presennol.
- y dylai Llywodraeth Cymru ddarparu canllawiau i awdurdodau lleol, i sicrhau eu bod yn ystyried y rhychwant eang hwn o ddulliau ariannu (yn cynnwys grantiau a chomisiynu cydweithredol) er cyflawni'r canlyniadau a ddymunir.

26. Rydym yn falch fod Llywodraeth Cymru wedi derbyn yr argymhellion hyn ers hynny, gyda swyddogion Llywodraeth Cymru'n dweud hyn wrthym:

> "all grants have been reviewed. We have issued reports to each department on them with recommendations for things that needed to be strengthened or introduced. We have followed up

> each of those recommendations, and very few of the actions that we recommended are outstanding.[10]

### *Canfyddiadau ac argymhellion adolygiad Llywodraeth Cymru o grantiau*

27. Nodwyd bod pob grant wedi cael ei adolygu erbyn hyn. Fodd bynnag, byddem yn ddiolchgar am eglurder ynglŷn â chanfyddiadau ac argymhellion yr adolygiad. Cytunwn â sylwadau WCVA:

> "We...would wish to see a transparent process which demonstrates how different options are considered and the criteria used to make decisions."[11]

28. Rydym hefyd am wybod yn glir sut bydd Llywodraeth Cymru'n monitro cynnydd pob Adran o ran rhoi'r argymhellion o'i hadolygiadau ar waith.

**Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn nodi'n glir mewn adroddiad grantiau blynyddol:**

- **sut y cafodd grantiau unigol eu hadolygu yn ei Hadolygiad Rheoli Grantiau;**
- **pa opsiynau ariannu eraill a gafodd eu hystyried;**
- **pa sail resymegol a ddefnyddiwyd i benderfynu ar yr opsiynau ariannu mwyaf effeithiol ym mhob achos;**
- **sut y bydd yn parhau i fonitro cynnydd pob Adran o ran gweithredu argymhellion ei hadolygiad; a**
- **sut mae'n gwerthuso pa mor effeithiol y mae cyrff allanol (pa un a ydynt yn gorff ymbarél sy'n cynrychioli sector, neu'n dosbarthu arian fel noddwr arweiniol ar brosiect) yn rheoli'r ffordd y caiff arian ei ddosbarthu i gyrff eraill.**

### *Adolygiadau o ddefnydd Llywodraeth Cymru o grantiau yn y dyfodol*

29. I'r dyfodol, mae Llywodraeth Cymru wedi nodi ei bod yn bwriadu sicrhau y bydd unrhyw arian grant yn cael ei werthuso'n rheolaidd ar

---

[10] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 3 Rhagfyr 2012, Para 196
[11] Grants Management in Wales, Further comments to Public Accounts Committee, WCVA, Ionawr 2013, Td 1

gam monitro prosiect unigol cyn y caiff hawliadau eu talu, ac ar lefel rhaglen bob tair blynedd.[12]

30. Credwn y bydd bob tair blynedd yn aml yn fwlch rheolaidd priodol i adolygiadau o'r fath, er y gallai bwlch o hyd gwahanol fod yn fwy priodol mewn rhai achosion. Credwn y gallai fod yn dda o beth teilwrio cylchoedd adolygu i natur cynllun penodol, yn hytrach na'u gosod yn awtomatig ar gylch tair blynedd. Nodwn sylwadau WCVA na ddylai adolygiadau gael eu cynnal bob blwyddyn er mwyn adennill sefydlogrwydd a gallu canolbwyntio'n llwyr ar gyflawni yn hytrach nag adolygu.[13]

### *Darparu canllawiau i awdurdodau lleol*

31. Rydym yn falch fod Llywodraeth Cymru wedi derbyn ein hargymhelliad y dylai ddarparu canllawiau i awdurdodau lleol, i sicrhau eu bod yn ystyried y rhychwant eang hwn o ddulliau ariannu (yn cynnwys grantiau a chomisiynu cydweithredol) er cyflawni'r canlyniadau a ddymunir.

32. Roeddem yn awyddus i wybod i ba raddau yr oedd ymwneud Llywodraeth Cymru â rhanddeiliaid allanol yn tawelu'u pryderon am unrhyw symud oddi wrth ariannu drwy grantiau. Rydym yn bryderus felly o glywed hyn gan WCVA:

> "As yet there has been no involvement of WCVA in this process and we are not aware of any activity in this area, we would like to see evidence of action to take this forward… There is now some urgency to this as we are aware of organisations whose core funding has ceased and in future services are likely to be procured. This is happening with both local government and Welsh Government funding and we would like to see this important discussion about appropriate use of funding mechanisms take place as soon as possible and include WAO, WLGA, Welsh Government and ourselves."[14]

33.

---

[12] Llywodraeth Cymru, Ymateb Llywodraeth Cymru i Adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus: Rheoli Grantiau yng Nghymru, Td 8

[13] Grants Management in Wales, Further comments to Public Accounts Committee, WCVA, Ionawr 2013, Td 1

[14] Grants Management in Wales, Further comments to Public Accounts Committee, WCVA, Ionawr 2013, Td 3

**Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cynnal deialog gyda Swyddfa Archwilio Cymru, WCVA a CLlLC wrth ddatblygu canllawiau clir i awdurdodau lleol, i sicrhau eu bod yn ystyried rhychwant eang o ddulliau ariannu (yn cynnwys grantiau a chomisiynu cydweithredol) er cyflawni'r canlyniadau a ddymunir.**

### *Cymhlethdod grantiau yng Nghymru*

34. Yn ein hadroddiad interim, dywedasom fod yr ystod o gynlluniau grant yng Nghymru a'u cymhlethdod yn ei gwneud yn anodd i ymgeiswyr ddeall yr amrywiol amodau sy'n gysylltiedig ag arian grant.[15]

35. Yn gefn i setliad refeniw llywodraeth leol 2004-05, cytunodd Llywodraeth Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) ar 'Brotocol' i grantiau penodol. Amcan y naill gorff a'r llall oedd lleihau nifer y grantiau penodol, gwerth y grantiau a hyd y grantiau gymaint â phosibl.[16]

36. Ers datblygu'r Protocol, mae Llywodraeth Cymru wedi dal i ystyried yn flynyddol pa rai o'i grantiau penodol y byddai modd eu trosglwyddo i setliad cynnal refeniw cyffredinol pob awdurdod lleol. Fodd bynnag, rhwng 2005-06 a 2009-10, dim ond nifer cymharol fach (sy'n gostwng) o grantiau cymharol fach sydd wedi cael eu trosglwyddo mewn gwirionedd.[17]

37. Yn ein hadroddiad interim ar reoli grantiau, roeddem yn croesawu bwriad Llywodraeth Cymru i ddatblygu prosiect peilot gyda chyfres o awdurdodau lleol:

> "...so that we can understand, from what they are trying to achieve with their local government protocol and the make-up of our overall grant profile, how we can have better consolidation."[18]

38. Yn ein hadroddiad interim, nodasom fod gennym ddiddordeb mewn dau ateb posibl i oresgyn problemau posibl wrth drosglwyddo arian o grantiau i'r setliad cynnal refeniw cyffredinol. Y rheini oedd:

---

[15] Swyddfa Archwilio Cymru, *Rheoli Grantiau yng Nghymru 2011,* Para 2.1
[16] Swyddfa Archwilio Cymru, *Rheoli Grantiau yng Nghymru 2011,* Para 1.13
[17] Swyddfa Archwilio Cymru, *Rheoli Grantiau yng Nghymru 2011,* Para 1.15 ac Arddangosyn 4
[18] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 31 Ionawr 2012, Para 73

- symud i gyllidebau sy'n cyfateb i'r lefelau ariannu blaenorol; a
- chyflwyno cytundebau canlyniadau clir a chadarn wedi'u seilio ar y lefelau ariannu newydd.

39. Argymhellwyd yn benodol gennym y dylai Llywodraeth Cymru ystyried arferion da mewn rhannau eraill o'r DU wrth ymdrin â sialensiau ymarferol sy'n codi wrth drosglwyddo grantiau penodol i'r setliad cynnal refeniw cyffredinol.

40. Rydym yn falch fod Llywodraeth Cymru wedi derbyn yr argymhelliad hwn. Deallwn ei bod hefyd wedi gwneud rhywfaint o gynnydd o ran ei hymrwymiad Protocol i leihau'r nifer o grantiau penodol i lywodraeth leol. Rydym wedi'n calonogi hefyd fod Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i adolygu 'strategaethau ymadael' yr holl grantiau sydd wedi'u neilltuo ar hyn o bryd, fel y caiff Gweinidogion gyngor cyfunol ar sut mae modd i grantiau gefnogi agenda ehangach diwygio gwasanaethau cyhoeddus cyn setliad nesaf llywodraeth leol ar gyfer 2014-15.

**Gweinyddu grantiau**

***Costau gweinyddol***

41. Dywedai adroddiad 2011 yr Archwilydd Cyffredinol ar reoli grantiau fod costau gweinyddu grantiau yn cynrychioli o leiaf 10 y cant o'r holl arian sy'n cael ei ddyfarnu i rai cynlluniau. Roedd adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol yn awgrymu ei bod yn rhesymol i Lywodraeth Cymru geisio canfod arbedion effeithlonrwydd ar raddfa fwy.[19]

42. Yn ein hadroddiad interim ar Reoli Grantiau, roeddem o'r farn y byddai'n dda o beth i Lywodraeth Cymru fabwysiadu targed cychwynnol na ddylai mwy na 5% o'r holl arian grant fynd ar weinyddu. Credem y gellid mabwysiadu targedau mwy uchelgeisiol wedyn unwaith y byddai costau gweinyddu cyfun grantiau Llywodraeth Cymru yn llai na 5%.

43. Argymellasom felly y dylai Llywodraeth Cymru:

- fabwysiadu targed o beidio â gwario mwy na 5% o gyfanswm ei chyllid grant ar weinyddu grantiau.

[19] Swyddfa Archwilio Cymru, *Rheoli Grantiau yng Nghymru 2011*, Para 1.22 i 1.27 ac Arddangosyn 6

– adrodd ar y cynnydd tuag at y targed hwnnw mewn adroddiad blynyddol ar reoli grantiau.

44. Rydym yn falch fod Llywodraeth Cymru wedi derbyn yr argymhellion hyn. Yn ei hymateb, dywedodd Llywodraeth Cymru y byddai'n ceisio sefydlu:

> "diffiniad clir o gostau gweinyddu. Bydd hyn yn ystyried canfyddiadau a chasgliadau adolygiad a gomisiynwyd gan Drysorlys EM ar gostau gweinyddu grantiau. Bydd y gost wirioneddol o weinyddu grantiau yn cael ei seilio yn unol â"r diffiniad hwn a bydd y Rhaglen Rheoli Grantiau yn gweithio gyda'r rheolwyr grantiau i gadw'r costau hyn mor isel â phosibl ar draws y sefydliad."[20]

45. Credwn ei bod yn synhwyrol sefydlu diffiniad clir o gostau gweinyddu. Dywedodd y Gronfa Loteri Fawr wrthym nad oedd yn cynnwys rhai gweithgareddau 'gwerth ychwanegol' yn ei diffiniad o gostau gweinyddu. Dywedodd:

> "At the Big Lottery Fund, we have a capital support unit made up of quantity surveyors and project managers who are able to give the applicant assistance with questioning costs or, if they are facing cost challenges, with looking at where cost savings might be made. That is of real value to the applicant and, ultimately, should help to manage the risk of not achieving the outcomes of those projects. That is a good example of where it adds value."[21]

46. Roedd tystiolaeth gan y Gronfa Loteri Fawr hefyd yn cefnogi'n hargymhelliad y dylid cyfyngu **cyfanswm** costau gweinyddu arian grant i 5%, yn hytrach na bod i bob grant unigol darged o 5% o gostau gweinyddu. Dywedodd y Gronfa Loteri Fawr:

> "It is not about setting yourself an absolute limit in that way and being alive to that. There may be certain projects with which it makes sense to have slightly higher administration

---

[20] Llywodraeth Cymru, Ymateb Llywodraeth Cymru i Adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus: Rheoli Grantiau yng Nghymru, Td 3
[21] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 3 Rhagfyr 2012, Para 295

costs to ensure that the outcomes are achieved and that the risk is managed appropriately."[22]

### *Cydymffurfio â Chod Ymarfer Llywodraeth Cymru i'r Trydydd Sector*

47. Yn ein hadroddiad interim ar reoli grantiau nodasom fod rhai sefydliadau sy'n cael grantiau weithiau wedi cyrraedd diwedd blwyddyn ariannol heb wybod a fyddai arian o'r fath yn parhau. Roeddem o'r farn fod rhaid i sefydliadau gael dealltwriaeth glir o leiaf dri mis cyn diwedd eu grant pa un a fyddai'r arian yn parhau. Gwyddem fod arweiniad ar faterion o'r fath ar gael drwy God Ymarfer Llywodraeth Cymru ar ariannu'r Trydydd Sector,[23] ond roeddem yn bryderus na chedwir yn gaeth at yr arweiniad hwnnw bob amser.

48. Argymellasom felly yn ein hadroddiad interim y dylai Llywodraeth Cymru:

- sicrhau bod rheolwyr yn gwneud penderfyniadau amserol ynghylch parhau â chyllid grant neu ei derfynu, a'u bod yn gorfod cadw at ei Chod Ymarfer ar ariannu'r trydydd sector.
- cyhoeddi adroddiad blynyddol ar reoli grantiau, a hwnnw'n cynnwys y cynnydd tuag at darged Llywodraeth Cymru ar gyfer costau gweinyddu a manylion unrhyw enghreifftiau o beidio â chydymffurfio â'r Cod Ymarfer ar ariannu'r trydydd sector.

49. Roeddem yn falch fod Llywodraeth Cymru wedi derbyn yr argymhellion hyn. Dywedodd Llywodraeth Cymru ei bod yn deall:

> "bod angen iddi wneud penderfyniadau mwy amserol ynghylch parhau neu orffen cyllid grant. Bydd y gofyniad hwn yn cael ei gynnwys mewn canllawiau ac yn yr hyfforddiant gorfodol sy'n cael ei roi i reolwyr grantiau ar draws y sefydliad. Bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod rheolwyr grant yn cadw at ei Chod Ymarfer ar gyllid i'r Trydydd Sector. Defnyddiwyd y rhwydwaith mewnol yn ddiweddar i hysbysu'r holl staff o bwysigrwydd y Cod Ymarfer. Bydd y Rhaglen Rheoli Grantiau yn sicrhau y bydd y Cod Ymarfer yn cael sylw priodol ym mhob penderfyniad sy'n ymwneud â datblygu, diwygio a chwblhau cyllid grant. Rydym yn cydweithio â'r sector ar weithredu'r Cod

[22] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 3 Rhagfyr 2012, Para 305
[23] Llywodraeth Cymru, Cod Ymarfer ar ariannu'r 3$^{ydd}$ Sector, Ionawr 2009.

Ymarfer drwy Is-bwyllgor Ariannu a Chydymffurfiaeth Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector."[24]

50. Nodwn fod y datganiad hwn yn golygu na fydd unrhyw fethiant i gydymffurfio yn cael ei oddef. Nodwn hefyd na wnaeth ymateb Llywodraeth Cymru gydnabod yn benodol ein dymuniad ni am i'r adroddiad blynyddol ar reoli grantiau nodi unrhyw achosion o fethu â chydymffurfio. Mae hynny'n fater pwysig o ystyried sylwadau WCVA:

> "Many organisations are reluctant to report breaches of the code to the Funding and Compliance Committee. We therefore need the Grants Management Project to evidence that Welsh Government is complying and report any breaches it finds to the National Assembly once a year."[25]

51. Dywedodd WCVA hefyd:

> "It is... surprising that the Code has not figured more highly in the work of the Grants Management Project which seems to concentrate purely on applicant compliance rather than customer service."[26]

52. Deallwn fod Swyddfa Archwilio Cymru yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i sicrhau bod yr adroddiad blynyddol yn manylu ar achosion o fethu â chydymffurfio â'r Cod.[27] Deallwn hefyd fod Llywodraeth Cymru wedi datgan ei bod yn bwriadu diweddaru sawl dogfen, yn cynnwys Cynllun y Trydydd Sector a'r Cod Ymarfer ar Ariannu'r Sector.[28] Fodd bynnag, credwn ei bod yn bwysig pwysleisio, er mwyn eglurder, yr angen i Lywodraeth Cymru fynd ati'n rhagweithiol i ganfod a yw'r Cod Ymarfer ar ariannu'r trydydd sector wedi cael ei dorri. Ni chredwn ei bod yn briodol i Lywodraeth Cymru eistedd yn ôl a disgwyl i gyrff allanol roi gwybod iddo am achosion o

---

[24] Llywodraeth Cymru, Ymateb Llywodraeth Cymru i Adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus: Rheoli Grantiau yng Nghymru, Td 3-4

[25] Grants Management in Wales, Further comments to Public Accounts Committee, WCVA, Ionawr 2013, Td 2

[26] Grants Management in Wales, Further comments to Public Accounts Committee, WCVA, Ionawr 2013, Td 2

[27] Swyddfa Archwilio Cymru, Rheoli Grantiau yng Nghymru – Cyngor ynghylch ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad interim y Pwyllgor. Yn arbennig, mae adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ar Gydberthynas Llywodraeth Cymru â Chymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan yn nodi bod un swyddog a oedd â rhan yn y broses o ddyfarnu arian o Gronfa Hyrwyddo Cydraddoldeb 2010-13 wedi dweud nad oedd yn ymwybodol o'r gofyniad amseru yn y cod ymarfer. Para 2.66

[28] Welsh Government to reshape its funding of the charity sector, Civilsociety.co.uk, 4 Chwefror 2013.

dorri'r cod, o ystyried y gallai fod arnynt ofn y caiff eu harian ei dorri o ganlyniad.

**Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn mynd ati'n rhagweithiol i ganfod a yw'r Cod Ymarfer ar ariannu'r Trydydd Sector wedi cael ei dorri, a'i bod yn nodi achosion o'r fath yn ei hadroddiad blynyddol ar reoli grantiau. Rydym yn disgwyl y byddai Llywodraeth Cymru'n cyhoeddi ei hadroddiad blynyddol cyntaf o'r fath erbyn mis Rhagfyr 2013 fan hwyraf.**

### *Blaendaliadau grant*

53. Yn ein hadroddiad interim ar Reoli Grantiau yng Nghymru, nodasom fod angen darparu achos busnes ar hyn o bryd cyn y gall cyrff allanol gael blaendaliadau grant. Clywsom dystiolaeth gan WCVA y dylai'r prawf hwn fod yn gymesur, a dywedodd:

> "as this 'business case' will be identical for most organisations, it should be possible to apply a simple universal test which would ensure consistency and fairness, and avoid increasing administrative burdens on both Welsh Government officials and grant recipients. The following straightforward test can therefore be used. If payment of a grant in arrears would reduce an organisation's freely available reserves to less than six months normal running costs (based on recent accounts), grants will be paid in advance."[29]

54. Gwnaed sylwadau tebyg pan oeddem yn casglu tystiolaeth yn anffurfiol am y trefniadau rheoli grantiau yn yr Alban, lle'r awgrymwyd bod angen taro cydbwysedd rhwng gadael arian cyhoeddus yn eistedd am fisoedd yng nghyfrif banc mudiad gwirfoddol yn cynhyrchu llog, ac ôl-dalu'r arian dri mis yn ddiweddarach (sydd wedyn yn golygu bod y sector gwirfoddol yn gorfod dargyfeirio incwm o feysydd cyllid eraill i wneud iawn am y diffyg, neu golli staff).[30]

55. Argymellasom felly yn ein hadroddiad interim ar reoli grantiau y dylai Llywodaeth Cymru ddatblygu prawf busnes tryloyw, cymesur a chyson i benderfynu pa un a ddylai flaendalu grantiau i sefydliadau.

---

[29] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 29 Mai 2012, Para 67
[30] Nodyn o'r casglu tystiolaeth anffurfiol am y trefniadau rheoli grantiau yn yr Alban, Para 12

56. Rydym yn falch fod Llywodraeth Cymru wedi derbyn yr argymhelliad hwn. Credwn fod adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ar *Gydberthynas Llywodraeth Cymru â Chymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan* yn dangos pwysigrwydd yr argymhelliad hwn.

57. Yn ei hadroddiad ar *Gydberthynas Llywodraeth Cymru â Chymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan*, dywedodd Swyddfa Archwilio Cymru:

> "Mae materion llif arian parod wedi bod yn nodwedd ar gamau gwahanol o'r cyfathrebu rhwng AWEMA a Llywodraeth Cymru, lle mae AWEMA wedi ceisio taliadau cyflymach, mwy rheolaidd, neu daliadau ymlaen llaw, gan Lywodraeth Cymru. Rydym wedi nodi rhai achosion lle'r oedd Llywodraeth Cymru, yn enwedig yn ystod blynyddoedd cynnar yr arian gan yr uned cydraddoldebau, yn araf yn adolygu dogfennaeth prosiect berthnasol ac yn prosesu hawliadau, gan arwain at oedi mewn taliadau. Fodd bynnag, rydym hefyd wedi gweld enghreifftiau lle, oherwydd methiannau AWEMA ei hun i gyflwyno hawliadau yn amserol neu gydymffurfio'n brydlon â gofynion monitro Llywodraeth Cymru, bu oedi o ran taliadau."[31]

58. Dywedai'r adroddiad hefyd:

> "Mewn ymateb i'r anawsterau a gafwyd gydag AWEMA, mae WEFO wedi cynnal adolygiad ehangach o'i defnydd o flaendaliadau i sefydliadau yn y trydydd sector. Dangosodd y gwaith hwnnw fod rhai sefydliadau yn cael eu talu ymlaen llaw er nad oedd unrhyw angen ariannol amlwg am flaendaliad. Mae 'Cod Ymarfer ar gyfer Ariannu'r Trydydd Sector' Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r egwyddor o flaendaliad, ond dim ond lle y caiff angen ariannol clir ei gadarnhau. Roedd WEFO wedi bod yn gweithio ar sail y dybiaeth y byddai angen blaendaliad ar sefydliadau yn y trydydd sector yn awtomatig."[32]

59. Yn ein hadroddiad interim ar reoli grantiau, ceisiom wahaniaethu rhwng 'blaendaliadau' a 'thaliadau cyn fod eu hangen.'

---

[31] Swyddfa Archwilio Cymru, Cydberthynas Llywodraeth Cymru â Chymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan, Para 1.22
[32] Swyddfa Archwilio Cymru, Cydberthynas Llywodraeth Cymru â Chymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan, Para 3.49

60. Nid ydym yn credu bod 'taliadau cyn fod eu hangen' yn dderbyniol, ac rydym yn siomedig fod WEFO wedi rhagdybio y byddai angen blaendaliadau ar fudiadau trydydd sector (yn cynnwys AWEMA) yn awtomatig. Nodwn fod WEFO wedi cryfhau'i rheolaeth dros flaendaliadau ers hynny.[33]

61. Credwn fod modd penderfynu ar sail prawf busnes tryloyw, cymesur a chyson pa un a yw blaendaliadau yn briodol. Mae'n bwysig, fodd bynnag, fod prawf o'r fath yn 'gymesur', gan gydnabod y gallai fod iddo gyffyrddiad ysgafn iawn yng nghyswllt mudiad bach iawn sy'n cael cymorth grant. Fel y nodwyd uchod, darparodd WCVA brawf syml i benderfynu a ddylid gwneud blaendaliadau: dim ond pe bai ôl-dalu grant yn golygu y byddai'r arian sydd ar gael yn hwylus i fudiad yn llai na chwe mis o'i gostau rhedeg arferol (ar sail cyfrifon diweddar) y dylid gwneud blaendaliadau.

62. Nodwn fod Llywodraeth Cymru erbyn hyn wedi datblygu templed talu ymlaen llaw ar gyfer mudiadau trydydd sector, a'i bod wedi dechrau ei ddefnyddio.[34] Lle ceir unrhyw broblemau yn gysylltiedig â'r templed hwn, cytunwn ag awgrym WCVA:

> "[they] should be reported by either the Grants Management Project or the third sector to the Funding and Compliance Committee and adjustments made based upon practical experience."[35]

**Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau ei bod yn cynnwys unrhyw broblemau yn gysylltiedig â'i thempled talu ymlaen llaw yn ei hadroddiad blynyddol ar grantiau a'i bod hefyd yn rhoi gwybod i'r Pwyllgor Ariannu a Chydymffurfiaeth amdanynt.**

63. Tynnai adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru sylw hefyd at faterion lle nad oedd AWEMA wedi trosglwyddo blaendaliadau ymlaen i'w phartneriaid prosiect.

64. Dywed yr adroddiad fod WEFO wedi disgwyl y byddai AWEMA yn rhannu'i blaendaliadau gyda phartneriaid prosiect er mwyn eu helpu

[33] Swyddfa Archwilio Cymru, Cydberthynas Llywodraeth Cymru â Chymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan, Ffigur 9
[34] Llywodraeth Cymru, Ymateb Llywodraeth Cymru i Adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus: Rheoli Grantiau yng Nghymru, Td 4.
[35] Grants Management in Wales, Further comments to Public Accounts Committee, WCVA, Ionawr 2013, td 2. Mae'r Pwyllgor Ariannu a Chydymffurfiaeth yn is-bwyllgor o Gyngor Partneriaeth y Trydydd Sector.

gyda'i llif arian parod.[36] Fodd bynnag, nid yw'n ymddangos bod WEFO yn ymwybodol nad oedd hynny'n digwydd a bod y taliadau i bartneriaid, mewn gwirionedd, ar ei hôl hi'n sylweddol. Hefyd, nodwn fod yna broblemau tebyg yn ôl pob golwg ar brosiect a ariannwyd gan WEFO rhwng 2005 a 2008.[37]

65. Cydnabu swyddogion Llywodraeth Cymru wrthym:

> "We were under the impression that funding was being passed on to joint sponsors. That has now become a more explicit requirement in our grant agreements, but given that more than 65% of the business was being taken forward through joint sponsors, we had anticipated that AWEMA would be passing on that advance to the Valleys Regional Equality Council and other organisations that were involved in delivery. It materialised that it was not passing it on, or at least not in its entirety, and clearly that is a lesson that we have learned."[38]

66. Dywedodd yr Ysgrifennydd Parhaol wrthym:

> "We have learnt... that that level of passing things on represents a level of risk that we really need to attend to, rather than just assuming that it is giving us the benefits, particularly in the case of advance payments."[39]

67. Fel cyn Gadeirydd AWEMA, roedd tystiolaeth Rita Austin ar y mater hwn yn arbennig o drawiadol. Dywedodd:

> "It seemed to me absolutely wrong that we should not be passing on advance payments if we had received them. We were a bit stymied on that occasion because our auditors took the view that, if an advance payment was paid out to a partner, and if, when the expenditure of that partner in terms of claims was assessed, some of that expenditure was ineligible, or deemed to be ineligible by WEFO, then AWEMA would stand to

---

[36] Swyddfa Archwilio Cymru, Cydberthynas Llywodraeth Cymru â Chymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan, Para 3.11

[37] Swyddfa Archwilio Cymru, Cydberthynas Llywodraeth Cymru â Chymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan, Para 3.11 ac Atodiad 3 astudiaeth achos 5.

[38] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 3 Rhagfyr 2012, Para 228

[39] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 3 Rhagfyr 2012, Para 239

lose out, because we would have paid it out. So, there was that technical point."[40]

68. I bob diben nid oedd AWEMA yn trosglwyddo blaendaliadau ymlaen gan ei bod yn poeni am y posibilrwydd y byddai WEFO yn adfachu grant, felly roedd yn defnyddio blaendaliadau WEFO i helpu i ariannu ei chostau gweithredu craidd.[41] Mae adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru yn nodi bod AWEMA, ar ôl derbyn blaendaliadau gwerth rhyw £529,000 gan WEFO ym mis Rhagfyr 2011, wedi talu rhyw £268,000 i'w phartneriaid prosiect am hawliadau yn ymwneud â gweithgarwch a oedd wedi'i gwblhau, hyd at ddiwedd mis Awst 2011 yn unig."[42]

69. Nodwn fod WEFO wedi dweud wrthym ei bod erbyn hyn wedi tynhau'r gweithdrefnau yn ymwneud â blaendaliadau, fel bod gofyniad penodol yn y cytundeb grant erbyn hyn i'w trosglwyddo ymlaen.[43]

### *Setiau safonol o delerau ac amodau*

70. Yn ein hadroddiad interim ar reoli grantiau, dywedasom y dylai Llywodraeth Cymru weithredu i sicrhau bod ei phrosesau gweinyddu wrth reoli grantiau (yn cynnwys y cais cychwynnol a monitro) yn gymesur â gwerth ariannol grantiau o'r fath (ac unrhyw risgiau cysylltiol eraill).

71. Roeddem yn rhagweld y byddai hyn yn cynnwys cyflwyno dulliau cymesur o wneud cais am grantiau, megis defnyddio – lle mae hynny'n briodol – broses ddau gam wrth wneud cais am grantiau mwy. Dywedodd CLlLC wrthym fod Llywodraeth Cymru wedi datblygu:

> "…standard terms and conditions for specific grants projects, and if you have a more consistent and standardised approach, you are certainly well on the way to better value for money and more efficiency in grants administration."[44]

72. Fodd bynnag, roeddem yn bryderus na fyddai'r un drefn yn gweithio bob amser efallai gan fod rhai grantiau'n werth miliynau o

[40] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 3 Rhagfyr 2012, Para 437
[41] Swyddfa Archwilio Cymru, Cydberthynas Llywodraeth Cymru â Chymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan, Para 2.117
[42] Swyddfa Archwilio Cymru, Cydberthynas Llywodraeth Cymru â Chymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan, Para 3.9-3.11
[43] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 3 Rhagfyr 2012, Para 228
[44] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 8 Mai 2012, Para 102

bunnoedd, ac eraill yn gymharol fach. Credem fod llwybr canol rhwng defnyddio set unigryw o delerau ac amodau ar gyfer pob grant neu gaffaeliad arall, ac un set o delerau ac amodau.

73. Roeddem felly yn croesawu'r telerau a'r amodau safonol ar gyfer prosiectau penodol a ddatblygwyd gan Lywodraeth Cymru fel man cychwyn. Credem y byddai'n dda o beth datblygu amryw o delerau ac amodau safonol, i sicrhau eu bod yn briodol a chymesur i'r math o gaffael dan sylw. Argymellasom fod Llywodraeth Cymru'n prysuro ymlaen â'r gwaith o ddatblygu amryw o delerau ac amodau safonol ar gyfer gwahanol fathau o brosesau caffael.

74. Nodwn fod Llywodraeth Cymru, mewn ymateb i'n hargymhellion, wedi dweud wrthym ei bod wedi cyflwyno:

> "standard offer letters and templates for terms and conditions, and a grants centre of excellence has been established."[45]

75. Nodasom hefyd i'r Gronfa Loteri Fawr ddweud wrthym:

> "we have also shared with the Welsh Government grant management school of excellence our standard terms and conditions and we have talked through our approach to both assessment and grant management. So, we have been very keen to share our experience, materials and information with the Welsh Government."[46]

76. Cytunwn â sylwadau WCVA ei bod yn annhebygol y gellir safoni popeth yn llwyr,[47] ond credwn fod modd gwneud ymdrech resymol i alluogi'r rhan fwyaf o delerau ac amodau grantiau i gael eu seilio ar dempledi addas, yn hytrach na bod pob set yn cael ei dylunio'n unigol o'r cychwyn.

77. Dywedodd WCVA hefyd wrthym:

> "More rigorous accountability requirements should be costed with a view to taking out other conditions and therefore revitalising costs. Current practice will lead to a diversion of resources from the front line to reporting and accounting tasks. Again it should be reviewed by the Funding and

[45] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 3 Rhagfyr 2012, Para 196
[46] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 3 Rhagfyr 2012, Para 290
[47] Grants Management in Wales, Further comments to Public Accounts Committee, WCVA, Ionawr 2013, Td 2-3

> Compliance Committee in light of experience. Clauses which undermine the independence of the sector should be removed."[48]

78. Nodwn y sylwadau hyn, ond ni chredwn y dylai'r egwyddor o set o delerau ac amodau safonol yn awtomatig olygu mwy o bwysau ar gyflwyno adroddiadau a chyfrifyddu i bob sefydliad. Yn hytrach, mae'n briodol fod faint o fonitro a chyfrifyddu sy'n ofynnol gan sefydliad neilltuol yn gymesur â faint o arian y mae'n ei dderbyn (ac unrhyw risgiau eraill sy'n gysylltiedig â'r trefniant ariannu).

***Un pwynt cyswllt i gael cyngor ar geisiadau am arian***

79. Yn ein hadroddiad interim ar reoli grantiau, gwnaethom argymell bod Llywodraeth Cymru'n darparu un pwynt cyswllt lle ceir cyngor ar geisiadau am arian (yn cynnwys – ond heb gael ei gyfyngu i - grantiau). Credem y gallai hyn helpu i ddatrys peth o'r cymhlethdod sy'n perthyn i'r broses o wneud cais am grantiau yng Nghymru.

80. Roeddem yn falch fod Llywodraeth Cymru wedi derbyn yr argymhelliad hwn, gan nodi mai ei bwriad oedd i'w Chanolfan Ragoriaeth Grantiau ddod yn un pwynt cyswllt i ymholiadau allanol ynglŷn â grantiau, yn ogystal ag yn bwynt cyswllt i'w staff hi ei hun. Dywedodd WCVA y byddai'n croesawu:

> "a more external facing role for the Grants Centre of Excellence. This will require some publicity, a willingness to attend external events and meetings and a web presence."[49]

81. Awgrymodd Archwilydd Cyffredinol Cymru hefyd fod angen i Lywodraeth Cymru, i ategu gwaith y Ganolfan Ragoriaeth Grantiau yn cyflawni'r rôl honno:

> "ddatblygu ei gwefan gyhoeddus gan mai dyma un o'r llefydd cyntaf lle byddai ymholwyr yn chwilio am wybodaeth."[50]

82. Cytunwn â'r sylwadau hyn.

---

[48] Grants Management in Wales, Further comments to Public Accounts Committee, WCVA, Ionawr 2013, Td 2-3
[49] Grants Management in Wales, Further comments to Public Accounts Committee, WCVA, Ionawr 2013, Td 3
[50] Swyddfa Archwilio Cymru, Rheoli Grantiau yng Nghymru - Ymateb Llywodraeth Cymru i Adroddiad Interim y Pwyllgor, Td 4

**Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gweithredu i gynyddu a rhoi cyhoeddusrwydd i rôl y Ganolfan Ragoriaeth Grantiau fel un pwynt cyswllt lle ceir cyngor ar geisiadau am arian. Rydym yn disgwyl i hyn gynnwys datblygu'i gwefan gyhoeddus.**

## 2. Gwendidau yn y ffordd y mae Llywodraeth Cymru'n Rheoli Grantiau

83. Nodai adroddiad 2011 yr Archwilydd Cyffredinol ar Reoli Grantiau ei fod er 2005 wedi cyhoeddi 18 o adroddiadau cenedlaethol[51] ar gynlluniau, rhaglenni neu brosiectau lle gwnaed buddsoddiad cyhoeddus sylweddol drwy grantiau penodol. Roedd yr adroddiadau hyn i gyd yn amlygu canlyniadau niweidiol rheoli gwael ar grantiau – mae hynny'n cynnwys arian wedi'i wastraffu, colli cyfleoedd a gwneud drwg i enw da.[52]

84. Roedd llawer o'r materion a amlygwyd yn yr adroddiadau hyn hefyd i'w gweld yn adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ar *Gydberthynas Llywodraeth Cymru â Chymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan*. I bob diben, roedd hwnnw'n 19eg adroddiad o'r fath.

85. Nodasom bwyslais yr Ysgrifennydd Parhaol newydd ar bwysigrwydd Rheoli Grantiau yn ei dystiolaeth lafar inni. Dywedodd:

> "the big issues that have been in my mind—and I have been thinking about this more or less since the first day I arrived—are about grants management in general. I know that there is a good deal of good work being done by my teams on that and I know that the Wales Audit Office is helping to develop that with us. However, in the seven or so weeks that I have been in the job, I have not yet fully satisfied myself about that programme of work, so I will want to test it in terms of its scope, pace and impact."[53]

86. Yn y rhan hon o'n hadroddiad felly rydym wedi ystyried yr hyn yr ydym ni'n ei weld fel gwendidau yn y ffordd y mae Llywodraeth Cymru'n ymdrin â Rheoli Grantiau; a'r camau y mae Llywodraeth Cymru'n eu cynnig i fynd i'r afael â'r gwendidau hynny.

---

[51] Swyddfa Archwilio Cymru, *Rheoli Grantiau yng Nghymru 2011,* Atodiad 2
[52] Swyddfa Archwilio Cymru, *Rheoli Grantiau yng Nghymru 2011,* Para 2.9, a'r pump Astudiaeth Achos ar dudalennau 20 – 22
[53] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 3 Rhagfyr 2012, Para 16

**Diffyg ymdrin yn gyfunol â Rheoli Grantiau**

87. Ar ddechrau'r adroddiad hwn, dywedasom fod gan Lywodraeth Cymru tua 480 o gynlluniau grantiau gwahanol ar waith yn 2009-2010.[54]

88. Caiff y gwahanol gynlluniau grant hyn eu cynnal gan wahanol adrannau yn Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn golygu bod posibl i un corff allanol wneud cais am wahanol grantiau, rhyngweithio â gwahanol swyddogion o fewn Llywodraeth Cymru, a chael ceisiadau ar iddo ddarparu gwahanol setiau o wybodaeth er mwyn cael y cyfryw grantiau.

89. Nid yw'r system hon ynddi'i hun yn creu problemau o reidrwydd, cyhyd â bo'r gwahanol adrannau hynny yn Llywodraeth Cymru yn cyfathrebu'n effeithiol â'i gilydd. Yn ein hadroddiad ar 'Broses gaffael Llywodraeth Cymru a'r camau a gymerwyd ganddi i waredu Gwesty River Lodge, Llangollen', dywedasom ei bod yn bwysig i:

> "Lywodraeth Cymru fel sefydliad fod yn ymwybodol o'r gwahanol grantiau y mae sefydliad yn gwneud ceisiadau iddi amdanynt. Bydd hyn yn golygu bod modd cynnal asesiad mwy strategol o'r risgiau a'r buddion sydd ynghlwm â darparu nifer o grantiau i un sefydliad."[55]

90. Heb gyfathrebu mewnol effeithiol, mae'n bosibl hefyd y gallai gwahanol grantiau gan Lywodraeth Cymru gael eu defnyddio'n ddiarwybod at ddibenion sy'n groes i'r amcanion y mae Llywodraeth Cymru fel corff yn ceisio'u cyflawni. Yn ein hadroddiad interim ar reoli grantiau, mynegwyd ein pryder:

> "O gofio bod ystod eang o grantiau gwahanol yn cael ei darparu gan Lywodraeth Cymru… rydyn ni'n credu ei bod yn arbennig o bwysig iddyn nhw gael eu cysoni'n rheolaidd ag amcanion strategol cyffredinol Llywodraeth Cymru."[56]

---

[54] Swyddfa Archwilio Cymru, *Rheoli Grantiau yng Nghymru 2011,* Para 1.5 i 1.9 ac arddangosion 1 a 2. Yn arbennig, yn sgil cyhoeddi ein hadroddiad interim, dywedodd WCVA wrthym mai grantiau i'r sectorau cyhoeddus a phreifat oedd y rhain yn bennaf gyda dim ond cyfran fach yn ariannu gweithgarwch trydydd sector. Fodd bynnag, mae'n ymddangos bod llawer o'r gweithgarwch a'r sylw ers AWEMA wedi cael eu targedu – i raddau anghymesur – at grantiau i'r trydydd sector.

[55] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, Proses gaffael Llywodraeth Cymru a'r camau a gymerwyd ganddi i waredu Gwesty River Lodge, Llangollen.

[56] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, Rheoli Grantiau yng Nghymru – Adroddiad Interim.

91. Mae adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ar gydberthynas Llywodraeth Cymru ag AWEMA yn nodi catalog o achlysuron pan na chafodd pryderon ynglŷn â pherthynas Llywodraeth Cymru ag AWEMA eu cyfleu'n fewnol.

92. Er enghraifft, yn 2002, ymrwymodd adran tai Llywodraeth Cymru, ei huned polisi gofal cymdeithasol a'r gyfarwyddiaeth cymunedau i drefniadau ariannu newydd gydag AWEMA.[57] Fodd bynnag, mae adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru yn nodi y bu diffyg cyfathrebu â'r adrannau hyn yn ôl pob golwg ynglŷn â phryderon oedd yn cael eu codi gyda Llywodraeth Cymru am AWEMA ac am gamau yr oedd Llywodraeth Cymru yn ystyried eu cymryd mewn ymateb, a hynny yn arwain ymhen amser at yr adolygiad gan yr adran gyllid.[58]

93. Pan ofynasom i swyddogion Llywodraeth Cymru pam fod grantiau wedi cael eu rhoi i AWEMA tra oedd yr adran gyllid yn cynnal adolygiad, eu hateb oedd:

> "that should not have happened. We were not as good then at sharing information across grants as we are now, and we will be better at sharing information in the future across grants, across the board, as we are now. However, having a part of the organisation that needed the information but was not aware of it is a situation that should not have happened. The only thing I can offer in mitigation is that, at the time, as now, there is a lot of grants activity and information going around, and that is not an area that is always picked up."[59]

94. Fodd bynnag, ni welsom dystiolaeth fod Llywodraeth Cymru wedi gwella'r ffordd y mae'n rhannu gwybodaeth am reoli grantiau er 2002. Er enghraifft, nodai adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru mai dyma oedd y sefyllfa yn 2005:

> "Nid ymddengys i ganfyddiadau adolygiad IMANI gael eu rhannu â Chyfarwyddiaeth Cymunedau Llywodraeth Cymru, er iddi barhau i ariannu AWEMA fel rhan o'r rhaglen Cymunedau

[57] Swyddfa Archwilio Cymru, Cydberthynas Llywodraeth Cymru â Chymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan, Atodiad 1.
[58] Swyddfa Archwilio Cymru, Cydberthynas Llywodraeth Cymru â Chymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan, Para 2.129 a 2.150
[59] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 3 Rhagfyr 2012, Para 66

yn Gyntaf. Hefyd, nid ymddengys i ganfyddiadau'r adolygiad lywio arfarniad WEFO o brosiect Curiad Calon Cymru AWEMA."[60]

95. Yn fwy diweddar, nodai adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru fod swyddogion a oedd wedi ysgwyddo cyfrifoldeb am fonitro'r arian yr oedd yr uned cydraddoldebau yn ei roi i AWEMA yn amlwg yn ymwybodol o'r cysylltiad â phrosiectau AWEMA a oedd yn cael eu hariannu gan WEFO. Fodd bynnag, dywedai'r adroddiad na fu unrhyw gysylltiad rhwng WEFO a'r uned cydraddoldebau ynglŷn ag AWEMA yn ystod 2011-12. Pan gafodd swyddogion Llywodraeth Cymru eu dwyn i gyfrif gennym am hyn, cydnabuont:

> "the comparing of notes between the equalities unit and WEFO was not happening during that last year. We have to put our hands up to that and, again, that is one of the key themes of the report, and indeed of other grants reports. We have to move out of that silo approach to grants management… The communications that took place were essentially around match funding. Clearly, that is inadequate."[61]

96. Nodwn i Lywodraeth Cymru ddatgan, wrth ymateb i'n hadroddiad interim diweddar ar Reoli Grantiau, y:

> "bwriedir cyflwyno system TG rheoli grantiau ganolog fel rhan o'r Rhaglen Rheoli Grantiau. Bydd gweithredu'r system Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid hon yn darparu'r wybodaeth reoli sydd ei hangen ar Lywodraeth Cymru."[62]

97. Byddem yn croesawu eglurder ynglŷn â'r amserlen er cyflwyno'r system hon. Mae'n bwysig fod blaenoriaeth briodol yn cael ei rhoi i gyflwyno'r system, oherwydd bydd yn sail i'r newidiadau diwylliannol ehangach y mae angen i Lywodraeth Cymru eu rhoi ar waith o ran rheoli grantiau.

**Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn nodi amserlen ar gyfer cyflwyno system TG ganolog i reoli grantiau, ac ar gyfer rhoi system Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid ar waith.**

---

[60] Swyddfa Archwilio Cymru, Cydberthynas Llywodraeth Cymru â Chymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan, Para 18
[61] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 3 Rhagfyr 2012, Para 96
[62] Llywodraeth Cymru, Ymateb i Adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus: 'Rheoli Grantiau – Adroddiad Interim.'

98. Fodd bynnag, mae'n hanfodol fod y system hon yn 'fwy na dim ond system TG', a'i bod hefyd yn golygu *newid diwylliant* yn Llywodraeth Cymru er mwyn annog gweithredu wedi'i gyd-drefnu ar draws y gwahanol adrannau a swyddogion. Yn hytrach na'u bod yn cynrychioli'u gwahanol adrannau mewn trafodaethau gyda chyrff allanol, mae angen i swyddogion ddeall y dylent fod yn cynrychioli Llywodraeth Cymru yn ei chyfanrwydd.

99. Yn arbennig, yn ein hadroddiad interim roeddem yn argymell:

- y dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod y cyllid a roddir ar ffurf grantiau yn cael ei ddefnyddio i gefnogi canlyniadau sy'n gyson â'i hamcanion polisi strategol.

100. Derbyniodd Llywodraeth Cymru yr argymhelliad hwn, a dywedodd ei bod wedi:

> "datblygu porth polisi sy'n sicrhau bod canlyniadau ac amcanion clir yn perthyn i unrhyw bolisi a ddatblygir. Mae'r porth polisi yn golygu bod gweithrediad y polisi yn cael ei ystyried yn gynnar ac, os pennir bod cyllid grant yn briodol, fod y cyllid hwnnw'n cael ei ddefnyddio i gefnogi canlyniadau priodol a nodir hyn yn glir yn y llythyrau cynnig grantiau."[63]

101. Tra ydym yn falch fod Llywodraeth Cymru wedi derbyn yr argymhelliad yn ein hadroddiad interim, rydym yn bryderus fod ei hymateb fel pe bai'n awgrymu nad oes angen i fawr o ddim byd arall newid yn y cyswllt hwn. Nid dim ond mater o sicrhau bod i bolisïau neu grantiau unigol ganlyniadau ac amcanion clir mo hyn. Mae gofyn i'r canlyniadau a'r amcanion hynny fod yn gyson ar draws Llywodraeth Cymru.

102. Fel enghraifft ddamcaniaethol, byddai'n bosibl i ddwy adran wahanol yn Llywodraeth Cymru ddarparu:

- un cynllun grant gyda'r bwriad o annog pobl i gerdded i'r gwaith; a
- chynllun grant arall i hwyluso'r ffordd i bobl weithio gartref.

103. Er y byddai llawer o elfennau tebyg yn perthyn i'r ddau gynllun grant dychmygol hyn, yn y bôn byddent yn annog pobl i wneud pethau

---

[63] Llywodraeth Cymru, Ymateb i Adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus: 'Rheoli Grantiau – Adroddiad Interim', Td 8

gwahanol. Credwn fod angen i Lywodraeth Cymru fod â gafael gyfunol ar beth y mae'n ceisio'i gyflawni gyda'i chynlluniau grant amrywiol. Yn ein hymchwiliad i broses gaffael Llywodraeth Cymru a'r camau a gymerwyd ganddi i waredu hen Westy River Lodge, Llangollen, dywedodd un o'n tystion hyn:

> "there did not at the time seem to be any central control or compilation, if you like, of the applications for grants. There were many streams of grant that you could apply for, but it seemed that people were able to apply for all sorts, but none of the people administering those grants talked to one another and said, 'Oh yes, I've had a grant application as well'. I found it odd that there did not seem to be any joined-up thinking, and I was quite disappointed about that."[64]

104. Roeddem felly yn mawr groesawu sylwadau'r Ysgrifennydd Parhaol na ddylai'r newid yn y ffordd y mae Llywodraeth Cymru'n rheoli grantiau gael ei gyfyngu i ddatblygu technoleg, a bod rhaid iddo hefyd olygu:

> "a cultural understanding of the importance, when it comes to grants management, of different parts of the organisation realising that they have the same client. I do not think that that awareness was strong in the organisation in the past. It will be, once we have completed our improvements to the grants management system as a whole."[65]

105. Nodasom yr ymrwymiad hwn i newid perthynas ddiwylliannol Llywodraeth Cymru â grantiau. Credwn ei bod yn dyngedfennol bwysig fod holl reolwyr grantiau Llywodraeth Cymru'n rhoi addewidion yr Ysgrifennydd Parhaol ar y mater hwn ar waith. O gofio nad yw newid diwylliannol bydd yn digwydd yn gyflym, ac y gall gymryd blynyddoedd i'w wireddu, credwn ei bod yn bwysig i'r mater hwn barhau'n flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru yn y blynyddoedd i ddod.

**Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru, yn ei hadroddiad blynyddol ar reoli grantiau, yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am ei chynnydd o ran:**

---

[64] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 19 Tachwedd 2012, Para 157
[65] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 3 Rhagfyr 2012, Para 102

- **rhoi'r argymhellion yn yr adroddiad hwn, ein hadroddiad interim ac adroddiad Rheoli Grantiau 2011 Swyddfa Archwilio Cymru ar waith.**
- **newid ei ffordd strategol o ymdrin â rheoli grantiau, i sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn gweithredu fel un corff yn ei pherthynas â chyrff allanol sy'n cael arian cyhoeddus.**

### *Cyfathrebu â darparwyr grantiau eraill*

106. Ar fater cysylltiol, dylid nodi nad Llywodraeth Cymru o bell ffordd yw'r unig sefydliad sy'n defnyddio arian cyhoeddus i ariannu cynlluniau grant yng Nghymru. Roeddem yn bryderus felly fod y cyfathrebu (neu'r diffyg cyfathrebu) gan Lywodraeth Cymru â darparwyr grantiau eraill yng Nghymru yn wendid arall posibl yn y ffordd y mae'n ymdrin â rheoli grantiau.

107. Gofynasom i'r Gronfa Loteri Fawr a oedd yn cael deialog rheolaidd â darparwyr grantiau eraill, mewn perthynas â grantiau penodol. Ymateb y Gronfa Loteri Fawr oedd:

> "No, it is unlikely unless we have specific concerns. That is not to say that it could never happen if there were concerns or if, for example, we were looking at the likelihood of significant match funding being made available."[66]

108. Credwn ei bod yn bwysig, os oes arian cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio drwy amryw o grantiau i gefnogi prosiect neilltuol, a bod pryderon penodol yn codi ynglŷn â'r prosiect hwnnw gydag un sefydliad, fod darparwyr grantiau eraill yn cael gwybod am hynny.

109. Ni chredwn fod rhaid i wybodaeth gyffredinol am brosiect neilltuol gael ei rhannu rhwng gwahanol ddarparwyr grantiau fel mater o drefn. Ond rydym yn credu ei bod yn briodol rhannu pryderon penodol. Cytunwn â sylwadau'r Gronfa Loteri Fawr:

> "in sharing that information we must also be aware that some of the comments that we hear are rumour. There is an issue there to make sure that we look at these things sensibly and

---

[66] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 3 Rhagfyr 2012, Para 276

proportionately. We are already looking to see how we can work more closely together to share that type of intelligence."[67]

110. Nodwn fod Llywodraeth Cymru wedi trafod gyda'r Gronfa Loteri Fawr a'r Comisiwn Elusennau drefniadau ar gyfer ymateb wedi'i gyd-drefnu i bryderon a allai godi ynglŷn â sefydliadau sy'n cael arian grant. Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi sefydlu gweithgor gyda'r partneriaid hyn (a WCVA) i ddarparu cymorth ac arweiniad ar safonau llywodraethu i sefydliadau sy'n cael eu hariannu.[68]

**Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cymryd camau i gwblhau ei deialog â'r Gronfa Loteri Fawr, y Comisiwn Elusennau, WCVA a chyrff priodol eraill i ddatblygu, cynhyrchu a gweithredu telerau cydweithio ar gyfer cyswllt rhwng gwahanol gyrff sy'n darparu grantiau sy'n arian cyhoeddus.**

## Methiant i asesu a lliniaru risg yn ddigonol

111. Yn ein hadroddiad interim ar reoli grantiau, dywedasom fod y gwendidau cyffredin yn y ffordd y mae Llywodraeth Cymru'n rheoli grantiau yn cynnwys:

- "methu rhoi digon o ystyriaeth i hyfywedd ariannol, capasiti a gallu'r derbynwyr;
- diffyg eglurder ynghylch meini prawf ac amcanion;
- methu asesu risgiau'n ddigonol a'u lliniaru."[69]

112. Roedd y dystiolaeth a gawsom yn ein hymchwiliad hefyd yn dangos y methiannau hyn. Er enghraifft, mewn tystiolaeth lafar ym mis Chwefror 2012, dywedodd Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru ar y pryd wrthym:

> "We know that the processes over recent years have been fine, but we have to go back much longer than that to answer questions and to get some answers about our long-term management of an organisation (AWEMA) that, if you look at the history, we should have graded as a high-risk organisation."

---

[67] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 3 Rhagfyr 2012, Para 324
[68] Llywodraeth Cymru, Ymateb i Adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus: 'Rheoli Grantiau – Adroddiad Interim, Td 16
[69] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, Rheoli Grantiau yng Nghymru – Adroddiad Interim, Awst 2012, Para 85

113. Fodd bynnag, mae'r dystiolaeth a gawsom yn awgrymu'n gryf nad yw Llywodraeth Cymru yn hanesyddol wedi bod ag unrhyw broses gyson i asesu hyfywedd y rhai sy'n cael grantiau. Nid oes ganddi felly unrhyw ddull ffurfiol i asesu'r risg wrth sefydlu perthynas â sefydliadau. Gwnaed y pwynt hwn gan gyd Gadeirydd AWEMA, a ddywedodd:

> "There was a clear declaration by the then most senior official of the Welsh Government, the Permanent Secretary… that AWEMA should historically have been graded a high-risk organisation, whereas the transcript of your last meeting states that she had no substantiating evidence."[70]

114. Awgrymodd y Gronfa Loteri Fawr nifer o ffactorau risg y gellid eu cymryd i ystyriaeth wrth benderfynu pa un i roi grant i sefydliad. Er enghraifft, dywedodd:

> "we are currently developing a new customer relationship management system, which we expect to roll out next year. That will look at a number of inherent risks, such as the age of an organisation, the amount of money being looked for, what its corporate status is, and how much it is asking for. It will help us to ascribe a risk status based on those factors and the quality of the application that we receive."[71]

115. Yn dibynnu ar y lefel o risg a nodwyd, dywedodd y Gronfa Loteri Fawr:

> "if the risk is considered too severe, we would reject the application—we would not support the organisation. In other instances, we might put in additional controls. That would typically be more frequent monitoring activity—for instance, the monitoring step might be a telephone call, or we might insist on a visit. So, it is frequently about more intense activity, or it could be that we have a higher sampling rate, for example in looking at the costs or invoices on a high-risk award."[72]

116. Nodwn fod adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru Tachwedd 2011 ar *Reoli Grantiau yng Nghymru* yn datgan y dylai cyllidwyr sicrhau bod y risg o ran hyfywedd, capasiti a gallu yn cael ei hystyried ar y cam

[70] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 3 Rhagfyr 2012, Para 343
[71] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 3 Rhagfyr 2012, Para 264
[72] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 3 Rhagfyr 2012, Para 309

gwneud cais, yn cael ei lliniaru drwy gymorth ychwanegol lle byddai hynny'n gost effeithiol ac yn cael ei monitro'n ofalus gydol cyfnod rhoi'r prosiect ar waith.

117. Yn yr un modd, mae ei hadroddiad ar *Gydberthynas Llywodraeth Cymru â Chymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan* wedi annog Llywodraeth Cymru i sefydlu protocolau clir i waith diwydrwydd dyladwy sy'n gymesur â faint o arian sy'n cael ei ddarparu a'r math o gorff derbyn. Byddai'r protocolau'n ystyried y risg o safbwynt hyfywedd ariannol ac yn cyfrannu at broses asesu risg glir fel sail i benderfyniadau ynglŷn â natur ac amlder gweithgarwch monitro Llywodraeth Cymru.

**Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru, law yn llaw â datblygu system rheoli cysylltiadau cwsmeriaid, yn datblygu fframwaith clir a chymesur i benderfynu ar y risg sydd ymhlyg mewn darparu arian cyhoeddus i gyrff allanol unigol.**

### Monitro grantiau

118. Mae'n gwbl briodol fod Llywodraeth Cymru'n monitro'r ffordd y caiff arian cyhoeddus ei wario drwy brosiectau allanol. Fel y dywedodd cyn Gadeirydd AWEMA:

> "public money needs to be carefully scrutinised, however small the organisation; governance needs to be good, regardless of what the organisation is, if it is handling public money; and the Welsh Government is there to see that that happens."[73]

119. Mewn tystiolaeth lafar inni, mae cyn Gadeirydd AWEMA wedi dweud bod amryw o bobl wahanol yn atebol am wendidau yn nhrefniadau rheolaeth ariannol a llywodraethu AWEMA, yn cynnwys Llywodraeth Cymru am beidio â monitro AWEMA yn fwy effeithiol. Dywedodd:

- "the blame lies essentially with the finance director for not doing the accounts."[74]
- "the blame lies with the chief executive for not supervising the accounts and ensuring that the accounts were done."[75]

---

[73] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 3 Rhagfyr 2012, Para 407
[74] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 3 Rhagfyr 2012, Para 490

- "the blame lies with the trustees because they, all too eagerly, allowed themselves to accept what the finance director was saying without demanding written evidence."[76]
- "the blame also lies with the funders who, through their performance in monitoring, should have been able to pick up where the accounts were or were not."[77]

120. Rydym yn cytuno â'r dadansoddiad hwn. Nid bod gwendidau yn nhrefniadau monitro Llywodraeth Cymru yn golygu nad oes bai na chyfrifoldeb ar eraill am drefniadau rheolaeth ariannol a llywodraethu gwan AWEMA. Ond credwn fod diffyg trefniadau monitro cadarn yn ffactor ym methiant trefniadau rheolaeth ariannol a llywodraethu AWEMA.

121. Mae adroddiad diweddar Swyddfa Archwilio Cymru ar *Gydberthynas Llywodraeth Cymru â Chymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan* yn dangos nifer o wendidau yn nhrefniadau monitro Llywodraeth Cymru. Er enghraifft, mae'n nodi na wnaeth adolygiad o AWEMA ym mis Rhagfyr 2011 (mewn ymateb i bryderon a godwyd gyda WEFO gan Rwydwaith Cydraddoldeb Rhanbarthol Gogledd Cymru) ganfod problemau yn ymwneud â:

> "chofnodion ariannol – cadarnhaodd yr adolygiad fod proses ar waith i godeiddio trafodion i mewn i lyfrau cyfrifon AWEMA ond ni nododd fod cofnodion y llyfr cyfrifon ymhell o fod yn gyfredol); [neu] wariant anghymwys – nododd yr adolygiad rai achosion o wariant anghymwys ond nid y graddau sydd bellach wedi dod i'r golwg."[78]

122. Yn fwy cyffredinol, ni nododd yr ymweliad Arolygu a Gwirio Prosiectau bryderon cyffredinol ynglŷn â sefyllfa ariannol AWEMA, yn bennaf am ei fod mor gyfyngedig ei gwmpas. Dywed adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru y bydd WEFO bellach yn sicrhau bod ymweliadau Arolygu a Gwirio Prosiectau yn canfod materion tebyg i'r rhai sy'n cael eu hystyried ar y cam cymeradwyo prosiect mewn perthynas ag arfarnu ariannol.

---

[75] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 3 Rhagfyr 2012, Para 491
[76] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 3 Rhagfyr 2012, Para 492
[77] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 3 Rhagfyr 2012, Para 492
[78] Swyddfa Archwilio Cymru, Cydberthynas Llywodraeth Cymru â Chymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan, 18 Hydref 2012, Para 2.115

123. Ni chanfu Swyddfa Archwilio Cymru unrhyw dystiolaeth fod AWEMA wedi darparu trywydd archwilio i WEFO o'r dyraniad arian cyfatebol ar draws tri phrosiect a ariannwyd gan WEFO ('cyfrif dyrannu arian cyfatebol').[79] Roedd hyn er gwaethaf y ffaith fod WEFO yn disgwyl i AWEMA ddarparu hynny, ac er gwaethaf y ffaith fod Tîm Arolygu a Gwirio Prosiectau WEFO ac archwilwyr allanol AWEMA wedi tynnu sylw at y mater hwn.

124. Bu pryderon mwy cyffredinol yn y gorffennol ynglŷn ac ansawdd a thrylwyredd trefniadau Arolygu a Gwirio Prosiectau WEFO, er i WEFO wneud newidiadau yn 2010 i fynd i'r afael ag argymhellion archwilio amrywiol. Mewn tystiolaeth lafar, dywedodd Llywodraeth Cymru wrthym fod tîm Arolygu a Gwirio Prosiectau WEFO hefyd ar y pryd yn mynd drwy:

> "a process of professionalisation whereby all of the staff in the PIV team will, in future, either be qualified accountants or qualified auditors."[80]

125. Dywedodd Llywodraeth Cymru wrthym ei bod wedi datblygu cyfres gyfan o ganllawiau newydd ar reoli grantiau.[81]

126. Nodwn ymdrechion Llywodraeth Cymru i roi ei thîm Arolygu a Gwirio Prosiectau ar sail broffesiynol, ac i gynhyrchu canllawiau i'w staff ar reoli grantiau.

127. Fodd bynnag, rydym yn ofalus rhag tybio mai'r unig wers yn adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ar *Gydberthynas Llywodraeth Cymru â Chymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan* yw bod angen 'rhagor o fonitro'. Credwn fod angen ymateb mwy soffistigedig. Dywed adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol *Rheoli Grantiau yng Nghymru 2011* fod derbynwyr grantiau wedi gofyn dro ar ôl tro am geisiadau symlach, llai amwys a mwy cyson am wybodaeth.[82] Disgrifiodd CLlLC hefyd wrthym bryder tebyg:

> "all the bureaucracy in the monitoring and evaluation of specific grants… will tend to concentrate on… how much you have done, how much money you have ploughed in… a

---

[79] Swyddfa Archwilio Cymru, Cydberthynas Llywodraeth Cymru â Chymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan, 18 Hydref 2012, Para 2.109
[80] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 3 Rhagfyr 2012, Para 175
[81] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 3 Rhagfyr 2012, Para 196
[82] Swyddfa Archwilio Cymru, *Rheoli Grantiau yng Nghymru 2011,* Para 2.3 i 2.8

concentration on outputs, which does not tell you much about what you are trying to achieve with citizens."[83]

128. Credwn y dylai'r monitro ar wariant a chanlyniadau sy'n cael eu galluogi drwy grantiau fod yn gymesur â'r lefel o arian dan sylw, a risgiau eraill fel niwed i enw da. Fel enghraifft, ni chredwn ei bod yn briodol gofyn fel mater o drefn i fudiadau bach o'r sector gwirfoddol – sydd efallai â llond llaw o staff yn gweithio'n rhan-amser – lenwi taflenni amser sy'n cofnodi'u hamser bob hanner awr.[84]

129. Cytunwn â'r sylwadau hyn gan yr Ysgrifennydd Parhaol:

> "We have concentrated today on the risks of getting poor value for money, or losing public money to no good effect, and new procedures and processes will be introduced. The risk at the other end of the spectrum is that we do not add so much process to procedure that we lose a sense of the proportionality of the risk and become an organisation that provides a bad service to small, voluntary organisations, to entrepreneurs, and to organisations that are doing good work and that need us to be reasonably agile and efficient in how we administer—and also that we do not accumulate cost in the organisation, unnecessarily, given that this is a large programme of work."[85]

130. Yn hytrach nag awgrymu bod angen rhagor o 'fonitro fel mater o drefn', credwn fod angen mwy o fonitro mewn perthynas â rhai meysydd penodol, sef:

- Monitro mwy effeithiol i ganfod a yw prosiectau sy'n cael nawdd cyhoeddus yn cyflawni canlyniadau;
- Monitro cyffredinol dwysach mewn ymateb i hawliadau gwallus yn y gorffennol; afreolaidd-dra ariannol neu faterion llywodraethu.

131. Rydym wedi ystyried y meysydd hyn yn yr is-benodau isod.

**Monitro canlyniadau grantiau**

132. Yn ein hadroddiad interim ar Reoli Grantiau, fe ddywedom:

---

[83] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 5 Mai 2012, Para 27
[84] Sefyllfa a ddisgrifiwyd yn adroddiad Pwyllgor Cyllid Cynulliad Cenedlaethol Cymru,. Rhagfyr 2012, ar 'Effeithiolrwydd Cyllid Strwythurol Ewropeaidd,' Para 200.
[85] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 3 Rhagfyr 2012, Para 251

> "ei bod, yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni, yn bwysicach nag erioed monitro, mewn modd effeithiol a chymesur, sut mae'r canlyniadau sy'n codi o gyllid cyhoeddus yn cael eu cyflawni. Rydyn ni'n rhag-weld y byddwn yn cymryd rhagor o dystiolaeth am gwestiwn monitro cyllid grant maes o law, ac yn gwneud argymhellion penodol am y mater mewn adroddiad terfynol ar Reoli Grantiau."[86]

133. Yn ei hadroddiad ar Gydberthynas Llywodraeth Cymru â Chymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan, nododd Swyddfa Archwilio Cymru yn ddiddorol:

> "nad oedd WEFO wedi mynegi unrhyw bryderon penodol am gynnydd prosiectau AWEMA a ariannwyd gan yr UE yn erbyn eu hamcanion... [nid] oedd trefniadau WEFO ar gyfer arfarnu a monitro'r prosiectau hyn yn ddigon trylwyr".[87]

134. Mae'r adroddiad yn nodi bod y cynnydd ym mis Rhagfyr 2011 ar ddau o'r tri phrosiect gan AWEMA a oedd yn cael eu hariannu gan WEFO ar ei hôl hi'n sylweddol (o ran gwariant a oedd wedi'i hawlio a pherfformiad y prosiectau). Dywed yr adroddiad nad oedd y sefyllfa a nodwyd mewn adroddiadau yn adlewyrchu'r holl weithgarwch a oedd wedi'i gyflawni gan bartneriaid AWEMA a bod WEFO, at ei gilydd, yn fodlon â'r cynnydd. Mae'r adroddiad yn nodi, o gymharu hynny â phrosiectau eraill ar draws rhaglenni'r Cronfeydd Strwythurol, fod y sefyllfa gyda phrosiectau AWEMA ymhell o fod yn unigryw.[88]

135. Argymhellai'r adroddiad y dylai WEFO sicrhau bod pob swyddog prosiect yn ymwybodol fod sefydlu a oedd prosiectau yn "cyflawni'r canlyniadau a fwriadwyd"[89] yn rhan allweddol o'u rôl yn monitro prosiectau.

136. Gofynasom i Lywodraeth Cymru pam nad oedd wedi sylwi ar y diffyg o ran darparu gwasanaeth yn y Gogledd, ar ôl i AWEMA roi'r

---

[86] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, Adroddiad Interim ar Reoli Grantiau yng Nghymru, Awst 2012, Para 94
[87] Swyddfa Archwilio Cymru, Cydberthynas Llywodraeth Cymru â Chymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan, Crynodeb, Para 20
[88] Swyddfa Archwilio Cymru, Cydberthynas Llywodraeth Cymru â Chymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan, Para 2.122-2.125, a ategir gan Ffigur 13 ar dudalen 101.
[89] Swyddfa Archwilio Cymru, Cydberthynas Llywodraeth Cymru â Chymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan, Crynodeb, Argymhelliad 2a

gorau i ariannu Rhwydwaith Cydraddoldeb Hiliol Gogledd Cymru. Dywedwyd wrthym:

> "There was no service being provided. That was not satisfactory and it is something that should have been raised in the monitoring... the monitoring was less than it could have been. One of the projects had been operating for quite some time—it was the one that was underperforming—in north Wales. The regular monitoring that was supposed to take place was not taking place…
>
> "One of the lessons that we have to learn is that the monitoring in this case was not as robust as it needed to be. I am satisfied that this is an exception, because I have reviewed the evidence of other monitoring. I have also written to all staff in the organisation to underline the importance of regular monitoring of projects, but, in this case, it was not undertaken as it should have been."[90]

137. Credwn fod sicrhau eglurder manwl o ran yr hyn y mae gofyn ei gyflawni yn allweddol er mwyn monitro'n effeithiol a yw canlyniadau'n cael eu gwireddu.

138. Yn arbennig, ar ôl terfynu'r arian i AWEMA, sefydlodd WEFO linell gymorth bwrpasol i ddarparu cymorth a chyngor i'r rhai a oedd yn rhan o'r prosiectau a oedd yn cael nawdd gan WEFO. Nodwn â phryder na dderbyniodd WEFO unrhyw alwadau i'r llinell gymorth oddi wrth y rhai a oedd yn cymryd rhan yn y prosiectau, oherwydd gellid dehongli bod hynny'n golygu nad oedd gan y cyfranogwyr lawer i'w ddweud wrth y prosiectau hyn. Cynigiodd WEFO awgrym arall i esbonio'r diffyg galwadau hwn, gan briodoli'r diffyg galwadau i'r ffaith fod gweithgareddau'r prosiect yn dal i fynd rhagddynt drwy'r sefydliadau partner.[91]

139. Nododd y Gronfa Loteri Fawr bwysigrwydd sefydlu'r canlyniadau a fwriedir yn glir o ddechrau'r broses, gan ddisgrifio hynny fel hyn:

> "We look at the outcomes that the applicant is proposing, to see how good they are and what they are trying to achieve. We

---

[90] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 3 Rhagfyr 2012, Para 111, 113 ac 115

[91] Swyddfa Archwilio Cymru, Cydberthynas Llywodraeth Cymru â Chymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan, Para 3.41

also then look at how capable they are of delivering those outcomes."[92]

140. Mae Llywodraeth Cymru wedi dweud wrthym ei bod eisoes yn ceisio cytuno ar amcanion ar ddechrau'r berthynas ariannu, a monitro wedyn bod y canlyniadau'n cael eu cyflawni. Dyma ddisgrifiad swyddogion Llywodraeth Cymru:

> "at the start of a relationship between the Welsh Government and a funder, we agree what outcomes we are looking for and on an award letter. Part of the award letter should include the performance that we expect from the organisation. So, that is built into the original dialogue, before we get into a funding situation, and we will talk through what the objectives are and what we expect to see. Once the money starts to go through, we will expect that dialogue to continue and for some metrics to come back about the performance of that organisation against the award letter, and we will monitor that over the period of the award to ensure that we are achieving the objectives and the outcomes originally intended when we set up the arrangement."[93]

141. Mewn ymateb i adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru, nodwyd bod Llywodraeth Cymru wedi datgan bod WEFO wedi bod yn adolygu'r ffordd y caiff ei threfniadau monitro eu rhoi ar waith ar draws rhaglenni ERDF ac ESF. Nodwn hefyd fod Llywodraeth Cymru, wrth ymateb i adroddiad y Pwyllgor Cyllid ar Effeithiolrwydd Cyllid Strwythurol Ewropeaidd yng Nghymru ym mis Rhagfyr 2012, wedi datgan:

> "Ar gyfer y rhaglenni cyfredol, mae WEFO yn defnyddio dull cymysg o werthuso effaith, gan arloesi technegau mwy trwyadl sy'n cynnwys amcangyfrif yr hyn y gallai fod wedi digwydd heb yr ymyriad a ariannwyd gan yr UE (h.y. sefyllfa wrthffeithiol) i gael canlyniadau mwy soffistigedig a chytbwys. Mae'r dull hwn wedi'i gymhwyso i astudiaethau gwerthuso amrywiol sy'n ymwneud ag ariannu gan gynnwys tri arolwg ar raddfa fawr o unigolion sydd wedi cael budd o gymorth Cronfa Gymdeithasol Ewrop ac arolwg o fusnesau sydd wedi cael budd o gymorth ERDF. Yn ogystal â darparu gwybodaeth am effeithiolrwydd

[92] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 3 Rhagfyr 2012, Para 260
[93] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 24 Ebrill 2012, Para 211

cyffredinol cymorth Cronfeydd Strwythurol i unigolion a busnesau, mae setiau data'r arolygon hefyd wedi'u defnyddio mewn gwerthusiadau lefel prosiectau.

"Ar ochr Cronfa Gymdeithasol Ewrop, gan ddefnyddio data Cronfa Gymdeithasol Ewrop a'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, mae WEFO wedi gallu cymharu'r graddau y mae'r rheini sy'n cyfranogi ac nad ydynt yn cyfranogi yng Nghronfa Gymdeithasol Ewrop yn symud i mewn i waith dros gyfnod o 12 mis. Ar ochr ERDF, mae'r math hwn o ddadansoddiad wedi cael ei atal gan brydlondeb setiau data sydd ar gael yn genedlaethol. O ganlyniad, bydd WEFO yn cynnal arolwg yn ddiweddarach eleni i sefydlu effaith cyllid ERDF ar ddechrau cyfnod y Rhaglen."[94]

142. Nodwn y gweithredu hwn, ac rydym o'r farn fod angen i fonitro canlyniadau prosiectau fod yn rhan annatod o drefniadau monitro Llywodraeth Cymru.

**Dwysáu'r monitro**

143. Credwn mai un maes o bwys lle gall Llywodraeth Cymru weithredu, yn sgil yr adroddiad hwn, yw drwy ddwysáu ei systemau monitro mewn perthynas â:

- ceisiadau am grant neu sefydliadau y nodwyd yn wreiddiol eu bod yn cynrychioli mwy o risg;
- ymateb pan gaiff hawliadau gwallus neu afreolaidd-dra ariannol eu nodi;
- ymateb i bryderon ynglŷn â llywodraethu.

144. Credwn nad yw hyn yn ddim ond synnwyr cyffredin sylfaenol. Mae'n rhesymol i Lywodraeth Cymru gynnal lefel o fonitro arferol ar ei grantiau, sy'n gymesur â chyfanswm y grantiau sy'n cael eu darparu i sefydliad allanol, maint y sefydliad ei hun, a ffactorau risg eraill. Mae hefyd yn rhesymol, os bydd pryderon yn codi ynglŷn â grant neu gorff penodol, fod y monitro'n cael ei ddwysáu (hyd yn oed os rhoddir 'mantais yr amheuaeth' i'r sefydliad i ddechrau).

[94] Ymateb Ysgrifenedig gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i adroddiad y Pwyllgor Cyllid o dan y teitl "Effeithiolrwydd Cyllid Strwythurol Ewropeaidd yng Nghymru," Chwefror 2013, Tudalennau 12-13.

145. Credwn fod tystiolaeth gan y Gronfa Loteri Fawr yn ategu'r cysyniad hwn o deilwrio'r monitro fel ei fod yn gymesur â lefel y risg yn yr achos dan sylw. Dyma a ddywedodd y Gronfa Loteri Fawr:

> "We have made four awards to AWEMA during its time, three of which were very small grants of up to £5,000. In those circumstances, we certainly would not look to go into the same level of due diligence checks as we did with the major award that we made of £518,000."[95]

146. Dywedai adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol *Rheoli Grantiau yng Nghymru 2011* mai un achos allweddol pam mae rhai cyrff sy'n cael grantiau yn dra hunanfodlon yn ôl pob golwg yw'r ffaith nad yw cyllidwyr grantiau yn aml yn ymchwilio ymhellach i hawliadau gwallus yng Nghymru. Rhybuddiai adroddiad 2011 y gallai arian cyhoeddus gael ei gyfeirio i'r mannau anghywir, gan wanhau'r effaith yr oedd i fod i'w chael. Tynnodd sylw hefyd at y ffaith y gallai ffydd y cyhoedd yn y ffordd y caiff arian trethdalwyr ei wario gael ei wanhau gan ragor o achosion uchel eu proffil.[96] Dywedai'r adroddiad fod y wybodaeth fonitro wedi bod yn wan iawn, hyd yn oed lle bu methiannau monitro dros gyfnod hir, neu lle mae archwilwyr ac eraill wedi codi pryderon (er enghraifft, mewn perthynas â *Phlas Madoc*, neu *goetiroedd Ffynone a'r Cilgwyn)*.[97]

147. Caiff y pryderon hyn eu hadleisio yn y llu o enghreifftiau ar draws adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ar *Gydberthynas Llywodraeth Cymru â Chymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan*. Yn 2002, er enghraifft, dywed i swyddogion o Adran Gyllid Llywodraeth Cymru gynnal:

> "adolygiad o AWEMA... rydym wedi dod i'r casgliad na wnaeth Llywodraeth Cymru... unrhyw waith dilynol ychwaith i'w bodloni ei hun fod y camau a gymerwyd gan AWEMA i fynd i'r afael ag argymhellion yr adroddiad yn ddigonol."[98]

148. Yn yr un modd, ym mis Rhagfyr 2003, comisiynodd Llywodraeth Cymru adroddiad gan 'IMANI Consultancy Services' o brosiectau

---

[95] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 3 Rhagfyr 2012, Para 262
[96] Swyddfa Archwilio Cymru, *Rheoli Grantiau yng Nghymru 2011,* Para 2.32 i 2.35 ac Arddangosyn 9
[97] Swyddfa Archwilio Cymru, *Rheoli Grantiau yng Nghymru 2011,* Para 2.22 i 2.25 ac astudiaethau achos 3 a 5
[98] Swyddfa Archwilio Cymru, Cydberthynas Llywodraeth Cymru â Chymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan, Para 2.10

AWEMA a oedd yn cael eu hariannu gan yr uned cydraddoldebau. Cwestiynai'r adolygiad hwn berfformiad AWEMA ar draws y tri phrosiect a oedd yn cael eu hariannu gan yr uned cydraddoldebau.[99] Fodd bynnag, pan ofynnwyd i gyn Gadeirydd AWEMA a fu unrhyw fonitro ar ôl cyhoeddi adroddiad IMANI i ganfod a oedd yr argymhellion ynddo wedi cael eu rhoi ar waith, dywedodd wrthym na fu unrhyw fonitro ychwanegol.[100] Yn wir, dywedodd:

> "Our feet were never held to the fire to respond to an action plan on development."[101]

149. Nodai adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru hefyd fod gan uned cydraddoldebau Llywodraeth Cymru bryderon ynglŷn â datblygiad cynllun gwaith AWEMA ar gyfer 2007-08 a'i bod wedi atal arian dros dro. Fodd bynnag, ni welodd Swyddfa Archwilio Cymru unrhyw gofnodion i gadarnhau sut y cafodd y pryderon ynglŷn â chynllun gwaith 2007-08 eu datrys a daeth i'r casgliad fod Llywodraeth Cymru wedi methu â rhoi ystyriaeth ddigonol i'r honiadau penodol ynglŷn â threfniadau llywodraethu AWEMA.[102]

150. Dywed yr adroddiad hefyd:

> "Yn ystod 2010-11 methodd yr uned cydraddoldebau ag ymdrin yn ddigonol â rhai pryderon pellach ynghylch systemau cyflawni AWEMA a phrin fu'r cyswllt rhwng yr uned a WEFO rhwng mis Ebrill 2010 a mis Rhagfyr 2011 yn ystod y cyfnod hwn er gwaethaf y cysylltiad clir rhwng arian yr uned a phrosiectau AWEMA a ariannwyd gan WEFO."[103]

151. Rydym yn bryderus iawn nad aethpwyd i'r afael yn ddigonol yn ôl pob golwg â'r pryderon hyn, er iddynt cael eu cofnodi dro ar ôl tro, drwy adolygiadau ac adroddiadau. Fel y dywedodd un o'n Haelodau wrth AWEMA:

---

[99] Swyddfa Archwilio Cymru, Cydberthynas Llywodraeth Cymru â Chymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan, Para 2.25
[100] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 3 Rhagfyr 2012, Para 390
[101] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 3 Rhagfyr 2012, Para 390 a 485
[102] Swyddfa Archwilio Cymru, Cydberthynas Llywodraeth Cymru â Chymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan, Para 2.49
[103] Swyddfa Archwilio Cymru, Cydberthynas Llywodraeth Cymru â Chymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan, Para 2.69

> "your feet should have been held to the fire about implementing the recommendations in other reports that had been drawn together based on the experiences there."[104]

152. Nid ymddengys bod unrhyw ddull i alluogi Llywodraeth Cymru i ddwysáu ei threfniadau monitro yng nghyswllt AWEMA, i adlewyrchu pryderon a oedd wedi'u nodi'n flaenorol. Nid yw hynny mewn unrhyw ffordd yn clirio AWEMA o'i chyfrifoldeb i roi argymhellion amrywiol Llywodraeth Cymru ar waith. Serch hynny, mae'n hanfodol fod Llywodraeth Cymru'n gallu monitro bod argymhellion o'r fath yn cael eu rhoi ar waith.

**Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn datblygu dull o ddwysáu ei threfniadau monitro, mewn ymateb i bryderon penodol yn ymwneud ag afreolaidd-dra ariannol neu faterion llywodraethu, a hynny'n cynnwys pan roddir 'mantais yr amheuaeth' i sefydliad.**

### *Cadw cofnodion a chof corfforaethol*

153. Awgrymodd swyddogon Llywodraeth Cymru wrthym fod y gwendidau yn nhrefniadau Llywodraeth Cymru i fonitro grantiau wedi cynyddu oherwydd gwendidau yn y drefn cadw cofnodion pan sefydlwyd yr uned cydraddoldebau yn wreiddiol. Dywedodd un swyddog wrthym:

> "the office would have been in a weak position to hold AWEMA to account on that, because of some inadequacy in record keeping during the early years in which it was set up, and that the underspend related to. Therefore, I must agree with you that there were real shortcomings in that process, which the report quite accurately highlights."[105]

154. Fodd bynnag, nid oedd y dystiolaeth i'n hymchwiliad ni yn awgrymu unrhyw welliant sylweddol yn y drefn cadw cofnodion dros y blynyddoedd ers i'r uned gael ei sefydlu'n gyntaf, oherwydd dywedodd Llywodraeth Cymru hefyd wrthym yn hwyr yn 2011:

> "Staff were in touch with AWEMA, asking where its progress reports were. What they did not always do on every occasion, I am afraid to say, is record those conversations on file.

[104] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 3 Rhagfyr 2012, Para 488
[105] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 3 Rhagfyr 2012, Para 50

Therefore, when colleagues in the WAO came to produce their report, not all of those conversations could be evidenced. So, the staff did not take this lightly, but we cannot evidence every occasion on which they raised this with AWEMA."[106]

155. Yn ein barn ni, cymhlethir effaith y drefn wael o ran cadw cofnodion gan y ffaith fod staff yn gallu symud yn gyflym o fewn Llywodraeth Cymru, ac nad yw Gweinidogion weithiau'n cael digon o wybodaeth hanesyddol. Er enghraifft, mae adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru yn nodi i'r uned cydraddoldebau, ym mis Gorffennaf 2010, baratoi deunyddiau briffio ar gyfer cyfarfod rhwng y Gweinidog a oedd yn gyfrifol am gydraddoldebau ar y pryd (Carl Sargeant) a'r cyn Aelod Cynulliad, Dr Dai Lloyd. Ond "ni chyfeiriodd y deunyddiau briffio... at unrhyw bryderon blaenorol ynglŷn â threfniadau darparu a llywodraethu AWEMA."[107]

156. Ni wnaeth adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ychwaith ganfod fawr o dystiolaeth fod Llywodraeth Cymru wedi sefydlu unrhyw drefniadau trosglwyddo ffurfiol rhwng Gweinidogon na swyddogion i sicrhau bod gwybodaeth am y berthynas ariannu-â-grantiau ag AWEMA, neu unrhyw sefydliadau eraill yr oedd yr uned cydraddoldebau yn eu hariannu, yn cael ei throsglwyddo. Roedd yr adroddiad yn annog Llywodraeth Cymru i sefydlu protocolau clir ar gyfer trosglwyddo cyfrifoldebau, yn cynnwys mynegi perthynas ariannu berthnasol rhwng adrannau, neu Lywodraeth Cymru'n ehangach, â sefydliadau allanol ac, yn arbennig, hanes unrhyw bryderon neilltuol ynglŷn â'r sefydliadau hynny.

157. Yn ein hadroddiad ar *Broses gaffael Llywodraeth Cymru a'r camau a gymerwyd ganddi i waredu Gwesty River Lodge, Llangollen,* yn ddiweddar, dywedwyd mai effaith gyfunol trosiant staff uchel, y ffaith nad yw Gweinidogion yn cael gweld papurau eu rhagflaenwyr, a'r trefniadau trosglwyddo cyfyngedig rhwng Gweinidogion, oedd bod Llywodraeth Cymru'n gallu cael ei gadael gyda chof corfforaethol pysgodyn aur. At y rhestr hon gallwn bellach ychwanegu trefniadau gwael o ran cadw cofnodion.

158. Credwn fod hyn yn fater o bwys ym mherthynas Llywodraeth Cymru â Chymdeithas Lleiafrifodd Ethnig Cymru Gyfan: i swyddogion

---

[106] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 3 Rhagfyr 2012, Para 94
[107] Swyddfa Archwilio Cymru, Cydberthynas Llywodraeth Cymru â Chymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan, Para 2.72

Llywodraeth Cymru a'r Gweinidogion, roedd pob set o bryderon ynglŷn ag AWEMA yn edrych fel pe bai'n ymddangos 'am y tro cyntaf' yn hytrach na'i bod yn rhan o gyfres o bryderon.

159. Cydnabu swyddogion Llywodraeth Cymru fod diffyg cof corfforaethol mewn perthynas ag AWEMA yn ffactor o bwys i egluro pam na roddwyd trefniadau dwysach ar waith i'w monitro. Dywedodd pennaeth yr uned cydraddoldebau wrthym mai rhan o'r rheswm pam y cafodd honiadau ynglŷn ag AWEMA eu trin yn gadarnhach ym mis Rhagfyr 2011 oedd:

> "I had previously been in equality and I had a memory of the allegations that were made in 2006, not in relation to equalities funding at that stage, but in relation to WEFO funding. That was another factor in my mind that made me feel that the allegations needed to be given proper treatment."[108]

160. Mae'n ymddangos, sylwer, fod y cof corfforaethol yn yr achos hwn wedi'i seilio ar lwc pur, yn hytrach na gweithredu bwriadol.

161. Pe bai gan Lywodraeth Cymru fecanwaith ffurfiol i nodi bod pryderon wedi cael eu cofrestru'n flaenorol, dro ar ôl tro, am sefydliad neilltuol, ac y byddai'n briodol gwneud mwy o waith monitro, credwn y gellid bod wedi ymdrin â'r honiadau ynglŷn ag AWEMA yn gyflymach.

### *Dwysáu'r monitro mewn perthynas â materion llywodraethu*

162. Rydym yn cydnabod na all Llywodraeth Cymru ficro-reoli na bod yn gyfrifol am lywodraethiant pob corff allanol y mae'n darparu arian iddo (drwy grantiau neu ddulliau eraill). Nododd swyddogion Llywodraeth Cymru, er enghraifft:

> "it is very difficult, given the number of organisations that the Welsh Government funds, for us to be aware of and to be checking the appropriateness of every promotional salary increase in those organisations, and, even if we were to do so, that would take us into a wholly inappropriate relationship with them."[109]

163. Fodd bynnag, credwn ei bod yn gwbl resymol i Lywodraeth Cymru ymateb i bryderon ynglŷn â llywodraethiant sefydliadau y mae'n

[108] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 3 Rhagfyr 2012, Para 28
[109] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 3 Rhagfyr 2012, Para 117

darparu arian iddynt. Yn fwy penodol, mae'n rhesymol i Lywodraeth Cymru fod yn gwbl effro i bryderon ynglŷn â llywodraethiant corff lle mae pryderon wedi cael eu mynegi'n flaenorol am ei lywodraethiant.

164. Un ffynhonnell o bwys o bryderon am lywodraethiant sefydliad yw bwrdd ymddiriedolwyr y sefydliad ei hun. Yn ein hadroddiad interim ar Reoli Grantiau, nodasom fod WCVA yn cynnig dull y gallai Llywodraeth Cymru ei ddefnyddio i benderfynu pryd y mae angen monitro'i pherthynas â sefydliadau yn fwy manwl. Dywedodd WCVA:

> "A sign of problems is when you have a significant number of trustees resigning; that is a warning sign… There is quite a lot of evidence that, when people express their concerns, particularly if they are trustees, their concerns are not taken as seriously as they should be."[110]

165. Yn ein hadroddiad interim, nodasom:

> "[nid] yw'n ofynnol ar hyn o bryd i'r rhai sy'n cael arian grant roi gwybod i Lywodraeth Cymru os bydd eu hymddiriedolwyr yn newid. Rydyn ni o'r farn y gallai fod yn briodol i Lywodraeth Cymru ddatblygu gofyniad cymesur bod rhaid i dderbynwyr cyllid o'r fath roi gwybod iddi am newid ymhlith eu hymddiriedolwyr. Rhagwelwn y byddwn yn cymryd rhagor o dystiolaeth am y mater hwn, gan wneud unrhyw argymhellion priodol yn ein hadroddiad terfynol am Reoli Grantiau."[111]

166. Rydym o'r farn fod gwerth sicrhau bod Llywodraeth Cymru'n ymwybodol o newidiadau ymlith ymddiriedolwyr – fel rhybudd fod yna broblemau llywodraethu – yn cael ei ddangos yn adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ar gydberthynas Llywodraeth Cymru â Chymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan. Dywed yr adroddiad, er enghraifft:

> "Following the January 2010 AWEMA Board meeting, the then Chair of AWEMA (Professor George Karani) notified Mr Malik that he wished to stand-down as Chair with immediate effect. Professor Karani, who had not been present at the January 2010 AWEMA Board meeting, told us that he took this decision for a variety of reasons. These reasons included him being increasingly uncomfortable with the principle of AWEMA

[110] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 29 Mai 2012, Para 84
[111] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, Adroddiad Interim ar Reoli Grantiau yng Nghymru, Awst 2012, Para 120

> employing other members of Mr Malik's family… Professor Karani did not, however, raise any concerns with the Welsh Government."

**Rydym yn argymell, fel amod wrth ddyfarnu grant, fod Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i bob corff sy'n cael grant roi gwybod i Lywodraeth Cymru am unrhyw newidiadau o bwys ymysg ei ymddiriedolwyr (er enghraifft, fod Cadeirydd neu draean neu fwy o'r ymddiriedolwyr wedi ymddiswyddo), am fethiant arwyddocaol i gynnal cyfarfodydd sy'n ofynnol yn ôl y cyfansoddiad, neu fod archwilwyr allanol wedi ymddiswyddo, gan roi eglurhad digonol i egluro'r cyfryw newidiadau.**

**Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi ystyriaeth gymesur i oblygiadau arwyddion rhybuddio posibl yng nghyswllt rheoli grantiau – megis newidiadau o bwys ymysg ymddiriedolwyr sefydliad, methiant i gynnal cyfarfodydd sy'n ofynnol yn ôl y cyfansoddiad, neu fod archwilwyr allanol wedi ymddiswyddo – gan gasglu gwybodaeth bellach yn ôl y gofyn (er enghraifft, defnyddio cyfweliadau ymadael).**

167. Mae adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru am gydberthynas Llywodraeth Cymru â Chymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan hefyd yn awgrymu bod methiant ymddiriedolwyr i gwrdd yn gallu bod yn rhybudd o broblemau. Mae'n dweud:

> "Cyn cyfarfod bwrdd AWEMA ym mis Chwefror 2009, cynhaliwyd Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ym mis Gorffennaf 2008 a chyfarfodydd o'r bwrdd ym mis Mai 2008 a mis Ionawr 2008. Mae disgrifiad yr uned cydraddoldebau o'i chyfarfod ag AWEMA ar 28 Gorffennaf 2009 yn nodi bod swyddogion wedi cael gwybod y byddai cyfarfod nesaf Bwrdd AWEMA rywbryd ar ôl y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ar 14 Awst 2009. Ni chafodd cyfarfod nesaf Bwrdd AWEMA a gofnodwyd ei gynnal tan fis Ionawr 2010. Mae dogfen lywodraethu AWEMA yn nodi y dylai ymddiriedolwyr AWEMA gyfarfod bedair gwaith y flwyddyn o leiaf ac y dylai Cyngor Aelodau AWEMA gyfarfod ddwywaith y flwyddyn o leiaf. Ymddengys mai dim ond unwaith y flwyddyn

ar ffurf y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol y cynhaliwyd y cyfarfodydd hyn o'r Cyngor ehangach, ers 2008 o leiaf."[112]

**Rydym yn argymell, fel amod wrth ddyfarnu grant, fod Llywodraeth Cymru yn rhoi gofyniad ar bob corff sy'n cael grant i hysbysu Llywodraeth Cymru am unrhyw achosion pan gaiff y gofynion yn nogfen lywodraethu'r sefydliad ynglŷn â chyfarfodydd ymddiriedolwyr eu torri, gan roi esboniad digonol o hynny.**

### Cyfathrebu ag ymddiriedolwyr

168. Mae'r adroddiad hefyd yn awgrymu, er bod Llywodraeth Cymru yn amlwg yn cyfathrebu ag AWEMA, mai cyfyngedig iawn oedd y cysylltiad rhyngddi â'r Ymddiriedolwyr. Caiff pwysigrwydd ymddiriedolwyr ei ddangos yn nheitl canllawiau WCVA i lywodraethu da yn y trydydd sector: "Faith and Hope don't run charities (trustees do)."[113]

169. Mae'r adroddiad yn nodi, er enghraifft, fod pryderon wedi cael eu codi yn 2007 gan Gadeirydd Dros Dro ac Is-gadeirydd Dros Dro AWEMA ar y pryd. Roedd a wnelo'r pryderon hynny, yn rhannol, â chodiadau cyflog a thaliadau bonws. Fodd bynnag, ni chanfu Swyddfa Archwilio Cymru fawr ddim tystiolaeth fod WEFO'n cymryd diddordeb byw yn y materion hynny ar y pryd.

170. Credwn fod y diffyg ymwneud hwn rhwng Llywodraeth Cymru a'r ymddiriedolwyr wedi dylanwadu ar ddigwyddiadau rhwng mis Tachwedd 2011 a mis Rhagfyr 2011.

171. Mae adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru yn disgrifio mai dim ond ar yr amod y byddai Prif Weithredwr AWEMA yn dod â'r honiadau yn ei erbyn i sylw WEFO y cytunodd i dderbyn enwebiad i ddod yn gadeirydd AWEMA ym mis Rhagfyr 2011. Mae cofnodion cyfarfod Bwrdd AWEMA ar 16 Rhagfyr 2011 yn cofnodi dealltwriaeth Dr Austin fod Prif Weithredwr AWEMA wedi rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i WEFO am ddatblygiadau.

172. Noda'r adroddiad nad yw union fanylion sgwrs rhwng Prif Weithredwr AWEMA a Phennaeth cangen Cronfeydd Cymdeithasol Ewrop WEFO ar 29 Tachwedd 2011 yn glir, er i rai materion ariannol

---

[112] Swyddfa Archwilio Cymru, Cydberthynas Llywodraeth Cymru â Chymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan, Para 2.59
[113] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 29 Mai 2012, Para 73

gael eu crybwyll a bod Prif Weithrewr AWEMA wedi rhoi sicrwydd nad oedd unrhyw afreolaidd-dra ariannol yn gysylltiedig â phrosiectau a oedd yn cael nawdd gan WEFO.[114]

173. Fodd bynnag, ni chafodd yr honiadau hyn eu cyfleu'n ehangach o fewn Llywodraeth Cymru. Cydnabu'r Ysgrifennydd Parhaol wrthym:

> "Bu datgeliad gan brif weithredwr AWEMA i un o swyddogion WEFO ar 29 Tachwedd, ond nid oedd cyswllt gydag unrhyw swyddog arall yn y Llywodraeth."[115]

174. Dywedodd yr Ysgrifennydd Parhaol:

> "the nature of the conversation was really quite glancing and I do not think necessarily that I or anyone else would have felt it necessary to take action differently from that taken by the head of the ESF unit, although, crikey, I wish he had."[116]

175. Mae adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru yn dweud mai dim ond ar ôl i Gyfarwyddwr Cyllid a Phrif Weithredwr AWEMA gysylltu â WEFO ac uned cydraddoldebau Llywodraeth Cymru ar 19 Rhagfyr 2011 y rhoddwyd gwybod yn fwy cyffredinol am y pryderon o fewn Llywodraeth Cymru.[117] Dywedodd cyn Gadeirydd AWEMA wrthym:

> "what the official knew on 29 November was no more and no less than what was disclosed by the finance director on 19 December, and rapidly afterwards by the chief officer on that date, except, of course, the finance director used far more colourful language."[118]

176. Gofynnwyd i gyn Gadeirydd AWEMA pam yr oedd wedi gofyn i Brif Weithredwr AWEMA ysgwyddo'r cyfrifoldeb o roi gwybod i Lywodraeth Cymru am honiadau amdano ef ei hun, yn hytrach na gofyn i rywun arall wneud hynny, neu wneud hynny ei hun. O'n safbwynt ni, nid oedd yn ymddangos yn rhesymegol i honiadau mor ddifrifol gael eu cyfleu yn y ffordd hon, heb ddefnyddio sianel fwy ffurfiol. Gofynnodd un o'n Haelodau:

---

[114] Swyddfa Archwilio Cymru, Cydberthynas Llywodraeth Cymru â Chymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan, Para 3.2-3.4
[115] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 3 Rhagfyr 2012, Para 184
[116] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 3 Rhagfyr 2012, Para 187
[117] Swyddfa Archwilio Cymru, Cydberthynas Llywodraeth Cymru â Chymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan, Para 3.2-3.7
[118] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 3 Rhagfyr 2012, Para 352

> "Why do you need to know someone in the Welsh Assembly Government or WEFO in order to inform them of something? Why do you need to know them? Why are these things done on an informal basis, without e-mails, without letters, without your being copied in? At that point, when you were saying that the condition on which you would come back as chair was that this was sorted, you were not even being copied in and you had to take someone's word that they had had a chat on the periphery of a meeting with the person concerned, and then that person is blamed for not having perfect recall of that."[119]

177. Ymatebodd cyn Gadeirydd AWEMA i'n pryderon drwy ofyn:

> "who else could I have asked to have this conversation with the head of the ESF branch, who does not know me from a bar of soap and who would not have known any of the other trustees?... WEFO has no relationship with members, ever."[120]

178. Nid ydym wedi ein hargyhoeddi mai dyma'r ffordd fwyaf priodol o gyfleu pryderon mor ddifrifol. Yn wir, cydnabu cyn Gadeirydd AWEMA wrthym:

> "In retrospect, I should have insisted that the chief officer of AWEMA keep a file note himself, and I did not. By that time, I was not fully in, if you follow me—I was not in the office."[121]

179. Cytunwn â'r sylw hwn. Fodd bynnag, nid pwrpas yr adroddiad hwn yw dal cyn Gadeirydd, nac ymddiriedolwyr, AWEMA i gyfrif. Yr hyn y mae'r digwyddiad hwn yn ei ddangos – yn ein barn ni – yw effaith y cyfathrebu cyfyngedig rhwng Llywodraeth Cymru ac Ymddiriedolwyr AWEMA. Rydym o'r farn fod angen mynd i'r afael â hyn mewn sefyllfaoedd tebyg.

180. Nodwn fod cefnogaeth ar gael ar hyn o bryd i ymddiriedolwyr a staff o ran llywodraethu da a sut i redeg elusen, a dywedodd WCVA:

> "All of that help and support is available through us and through the county voluntary councils… We provide project and business planning courses, particularly in relation to European

---

[119] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 3 Rhagfyr 2012, Para 451
[120] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 3 Rhagfyr 2012, Para 430 a 445
[121] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 3 Rhagfyr 2012, Para 425

> projects, which are often the bigger resourced projects. There are well-established accredited courses available on project planning and project management."[122]

181. Rydym yn cydnabod hefyd mai gwirfoddolwyr yw Ymddiriedolwyr fel arfer, ac na ddylai Llywodraeth Cymru eu mygu â thâp coch. Rydym yn cydnabod pryder WCVA:

> "we could make life too complicated for trustees - remember that, at the end of the day, trustees are people like you and me and are volunteers."[123]

182. Fodd bynnag, credwn y byddai'n werth i Lywodraeth Cymru ddatgan yn glir beth yw cyfrifoldebau Ymddiriedolwyr yn ei barn hi, a sut y gall Ymddiriedolwyr fynegi pryderon ynglŷn â llywodraethiant sefydliad.

**Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cynnwys manylion am atebolrwydd a chyfrifoldeb cymesur ymddiriedolwyr yn y gofynion ynghlwm wrth gyllid allanol (yn cynnwys arian grant). Rydym yn disgwyl i hyn gynnwys manylion ynglŷn â:**

- **yr amgylchiadau penodol pryd y dylai pryder am lywodraethiant sefydliad gael ei ddwyn i sylw Llywodraeth Cymru;**
- **y dull priodol er mwyn mynegi pryder am lywodraethiant sefydliad wrth Lywodraeth Cymru.**

183. Pe bai Llywodraeth Cymru wedi bod yn fwy effro i bryderon hanesyddol am lywodraethiant AWEMA, credwn y gellid bod wedi cymryd camau i fynd i'r afael â'r pryderon hyn cyn mis Rhagfyr 2011. Cydnabu'r Ysgrifenydd Parhaol wrthym:

> "perhaps it would have been better if more intensive inquiries had been made on those earlier occasions; they were not. That was partly because of a reluctance to pursue the governance of an organisation. I think that that is one of the major lessons that we have learnt, that public money needs to be followed to the governance of an organisation where necessary—not to run

[122] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 29 Mai 2012, Para 60 a 63
[123] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 29 Mai 2012, Para 75

an organisation or to live in its pocket, but, where necessary, to follow the money to the governance."[124]

184. Credai'r Cyfarwyddwr Cynllunio Strategol a Chydraddoldeb hefyd fod Llywodraeth Cymru dros amser wedi dysgu pwysigrwydd canolbwyntio ar lywodraethiant. Dywedodd:

> "on many previous occasions the focus was on the performance management of the business plan or the contract with AWEMA, rather than on matters of its corporate governance. There are a whole number of occasions listed in the report where that was the case. In many ways, that reflected where we were as an organisation at the time: there was not the same clarity of understanding about where lines could be drawn about what matters were appropriate to the internal governance of an organisation and what was the legitimate interest of the Welsh Government... After the issues in Communities First with Plas Madoc and so on, there has been a developing understanding in the office that has gradually changed the assumptions. Therefore, when the allegations were made in December 2011—which, as you quite rightly say, were not in themselves fantastically different in nature or level from the allegations made in the summer of 2007—the approach that we took was quite different, because we regarded the corporate governance of the organisation as quite a legitimate area for us to be interested in."[125]

185. Rydym yn falch fod Llywodraeth Cymru wedi cydnabod bod llywodraethiant corfforaethol cyrff allanol yn faes dilys iddi ymddiddori ynddo, a'i bod yn y pen draw wedi ymateb yn gadarn i bryderon a godwyd am lywodraethiant corfforaethol AWEMA. Fodd bynnag, nid ydym wedi'n hargyhoeddi fod digwyddiadau Tachwedd-Rhagfyr 2011 yn dangos yn glir fod y wers hon wedi dod yn rhan greiddiol o holl arferion gwaith Llywodraeth Cymru.

186. Dywed adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru, pe bai Llywodraeth Cymru wedi ymchwilio'n fwy prydlon i'r materion a godwyd gan Brif

[124] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 3 Rhagfyr 2012, Para 24
[125] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 3 Rhagfyr 2012, Para 26

Weithredwr AWEMA ar 29 Tachwedd 2011, ei bod yn bosibl na fyddai taliadau (gwerth £529 000) wedi cael eu hawdurdodi.[126]

187. Awgrymodd cyn Gadeirydd AWEMA inni mewn tystiolaeth lafar fod methiant Llywodraeth Cymru i ymateb i'r honiadau hyn ar 29 Tachwedd 2011, yn hytrach nag 19 Rhagfyr 2011, hefyd wedi gwneud gwahaniaeth sylweddol i AWEMA ei hun. Pe byddid wedi ymchwilio mwy i'r honiadau a godwyd ar 29 Tachwedd, dywedodd hyn mewn tystiolaeth ysgrifenedig:

> "what was owed to the 4 partners, a bit over half, could have been directly reimbursed to them by WEFO... [a] review instituted a month to six weeks earlier than it was would have established earlier the considerable deficiencies in statutory and management accounting. And this earlier intervention could have provided opportunity for remedy – for the Finance Director to finalise the 2011 statutory accounts in time to comply with the statutory date for submissions to Companies House and Charity Commission, and to establish proper management accounts… the then serving trustees would have been in place to take responsibility for and to account for their actions in permitting such deficiencies of financial control and governance… Not escalating the chief officer's disclosures of 29 November has had serious reputational consequences for all associated with AWEMA and done them and it much hurt and harm, all of which could possibly have been avoided with earlier WG and WEFO intervention, and this includes termination of funding which led to its demise."[127]

188. Mewn cyferbyniad, dywed adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru:

> "pe bai Llywodraeth Cymru wedi gallu atal y taliadau a wnaed ar 20 Rhagfyr 2011 yna... byddai hyn wedi rhoi AWEMA, neu ei phartneriaid, mewn sefyllfa ariannol hyd yn oed yn fwy bregus. Roedd WEFO wedi disgwyl y byddai AWEMA yn rhannu ei blaendaliadau â phartneriaid er mwyn helpu gyda'u llifau arian parod hwythau ond nid ymddengys ei bod yn gwybod nad oedd hyn wedi bod yn digwydd. Roedd materion ynglŷn â dosbarthu

---

[126] Swyddfa Archwilio Cymru, Cydberthynas Llywodraeth Cymru â Chymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan, Para 26

[127] Nodiadau a baratowyd gan Rita Austin, cyn Gadeirydd AWEMA, ar gyfer ei sesiwn tystiolaeth gerbron y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar 3 Rhagfyr 2012, tudalennau 5-6.

blaendaliadau wedi bod yn rhan o'r pryderon a nodwyd gan WEFO yn 2006 ac yr ymchwiliwyd iddynt o ran prosiect Curiad Calon Cymru. Ar ôl cael y blaendaliadau ym mis Rhagfyr 2011, talodd AWEMA tua £268,000 i'w phartneriaid am hawliadau a gwmpasai weithgarwch ôl-weithredol tan ddiwedd mis Awst 2011 yn unig. Mae'r sefyllfa hon yn ategu casgliad Tîm Arolygu a Gwirio Prosiectau WEFO ym mis Mai 2012 fod AWEMA wedi bod yn defnyddio blaendaliadau WEFO i ariannu ei chostau gweithredu craidd."[128]

189. Ni chredwn ei bod yn bosibl rhagweld yn gywir pa un a fyddai Llywodraeth Cymru wedi rhoi'r gorau i ariannu AWEMA pe bai Llywodraeth Cymru wedi ymateb i'r honiadau a wnaed ar 29 Tachwedd yn hytrach nag 19 Rhagfyr. Mae'n anodd coelio na fyddai drwg wedi cael ei wneud i enw da AWEMA. Nodwn hefyd y byddai WEFO'n disgwyl bod AWEMA eisoes wedi trosglwyddo'r arian y gwnaeth AWEMA ei dalu i'w phartneriaid ariannu ym mis Rhagfyr 2011 (gan mai arian am weithgarwch hyd at ddiwedd mis Awst 2011 oedd hwn). O ganlyniad, hyd yn oed pe bai Llywodraeth Cymru wedi ymateb i honiadau 29 Tachwedd, mae'n ymddangos yn annhebygol y byddai WEFO wedi bod yn barod i dalu arian i bartnieriad ariannu AWEMA yn hytrach nag i AWEMA ei hun.

190. Gellir dweud hefyd, pe na bai yna ddiffygion difrifol yn nhrefniadau cyfrifyddu statudol a rheolaethol AWEMA yn y lle cyntaf, na fyddent wedi cael eu nodi yn adolygiad Llywodraeth Cymru.

191. Serch hynny, rydym o'r farn y dylai Llywodraeth Cymru fod wedi gweithredu cyn 19 Rhagfyr 2011. Ond credwn nad yw'r methiant hwn i'w briodoli i unrhyw swyddog unigol, ond yn hytrach i'r diffyg system i ganfod risg, a hynny wedyn yn arwain at fonitro dwysach. Pe bai system o'r fath ar waith, credwn ei bod yn fwy tebygol y byddai camau priodol wedi cael eu cymryd mewn perthynas â'r pryderon a godwyd ar 29 Tachwedd 2011, os nad yng nghynt.

### Monitro mewn perthynas â chyrff ymbarél

192. Dywed adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru fod creu AWEMA, a'i datblygiad cynnar, yn adlewyrchu pwyslais polisi ar gydraddoldeb ac amrywiaeth ynghyd ag awydd Llywodraeth Cymru i sianelu'i hymwneud

---

[128] Swyddfa Archwilio Cymru, Cydberthynas Llywodraeth Cymru â Chymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan, Para 3.11

â materion cydraddoldeb hil drwy un corff.[129] Ym mlynyddoedd cynnar y Cynulliad Cenedlaethol, cafodd AWEMA ei hyrwyddo gan uned cydraddoldebau Llywodraeth Cymru i adrannau eraill fel cyfrwng i ymgysylltu â materion polisi yn ymwneud â chymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig. Ym mis Medi 2000, cynigiodd pennaeth yr uned cydraddoldebau ar y pryd gefnogaeth gyffredinol i gais AWEMA i'r Swyddfa Gartref am arian.[130]

193. Mae'r adroddiad yn nodi nad oedd y gefnogaeth gynnar a roddwyd i AWEMA gan Lywodraeth Cymru yn cael ei derbyn yn gyffredinol yn ôl pob golwg[131] a bod anawsterau o fewn strwythurau AWEMA[132] a phryderon amrywiol yn cael eu mynegi ynglŷn â threfniadau llywodraethu a rheolaeth ariannol AWEMA. Dywedodd cyn Gadeirydd AWEMA:

> "AWEMA had precious few friends at its inception, because people were extremely jealous of the funding that was being given to what they regarded as the new kid on the block and wondered why the funding was not going to them. So, we never had any friends, not among Ministers, AMs or anybody."[133]

194. Mae'r adroddiad yn nodi nad oedd Llywodraeth Cymru yn ôl pob golwg, erbyn 2005, mwyach yn ystyried AWEMA fel y prif gyfrwng er ymgysylltu ac ymgynghori â chymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig yn y ffordd a arweiniodd at greu AWEMA.[134]

195. Roeddem yn bryderus a oedd angen craffu'n benodol ar gyrff ymbarél sy'n cael grantiau, oherwydd roedd Llywodraeth Cymru i bob dibyn yn dibynnu ar gorff cyfryngu i drin ystod o gyrff gwahanol yn deg. Nododd cyn Gadeirydd AWEMA:

> "There are deep philosophical problems with umbrella organisations and mostly so in the race equality field. They do work, and when I was a paid official of the Race Equality

[129] Swyddfa Archwilio Cymru, Cydberthynas Llywodraeth Cymru â Chymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan, Para 2.3-2.10
[130] Mae *Atodiad 4* o adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru yn disgrifio bod arian y Swyddfa Gartref yn werth £345,735 i AWEMA rhwng 2000-01 a 2003-04.
[131] Swyddfa Archwilio Cymru, Cydberthynas Llywodraeth Cymru â Chymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan, Para 2.8-2.10
[132] Swyddfa Archwilio Cymru, Cydberthynas Llywodraeth Cymru â Chymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan, Atodiad 3, Astudiaeth Achos 1, Tudalen 117
[133] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 3 Rhagfyr 2012, Para 367
[134] Swyddfa Archwilio Cymru, Cydberthynas Llywodraeth Cymru â Chymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan, Para 2.32

> Council, which was a membership organisation and an umbrella organisation, I made it work, but it takes an enormous effort of will to get them to work… I think that the Welsh Government chickened out in the election after that first Assembly, for whatever reason. It abrogated its own responsibilities with regard to equality across the field—and what I say about race equality I mean also across the equality field. It abrogated the responsibilities that it should itself have formed in each of its departments in the pursuit of race equality, to an organisation, which, with the best will in the world—never mind all the petty in-fighting that regrettably goes on among ethnic minority groups—could not perform what it wanted to."[135]

196. Roeddem yn cytuno â sylwadau cyn Gadeirydd AWEMA. Fodd bynnag, nododd Llywodraeth Cymru iddi ddal i gefnogi'r cysyniad o gefnogi sefydliadau amrywiol drwy gorff cyfryngu, gan ddweud:

> "You get clear value for money advantages if you have effectively one representative stakeholder group acting as a channel for this. So, there are lots of good reasons for going for it. In many areas, it works very well; you can make better informed strategic choices, which are informed by the people on the ground, who know about it and who can advise you where to go, and you can manage conflicting priorities. So, it is a good policy aim. It was difficult in this case to bring together the parts and get a kind of cohesive umbrella organisation that we could use."[136]

197. Er ein bod yn gwerthfawrogi'r rhesymeg, roeddem yn pryderu na fyddai cyrff ymbarél o'r math a oedd yn cael ei ddisgrifio yn bodoli bob amser, neu nad y nhw fyddai'r cyfrwng mwyaf effeithiol. Fel y dywedodd un o'n Haelodau:

> "[The Director of Governance] talked about value for money by giving it to an organisation such as AWEMA and then letting it pass it on. I would argue that it is far better value for money to use local authorities or councils for voluntary action."[137]

---

[135] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 3 Rhagfyr 2012, Para 375 a 392
[136] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 3 Rhagfyr 2012, Para 33
[137] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 3 Rhagfyr 2012, Para 39

198. Cytunai'r Ysgrifennydd Parhaol mai craidd y mater yn yr achos hwn oedd nid y ffaith y defnyddiwyd corff ymbarél fel y cyfryw, ond hyn:

> "the Welsh Government clearly got itself into a position here where there was not just a lead organisation, but a dominant one, as it were, and, as I said, too much was done through it for safety."[138]

199. Gofynasom oni allai sefyllfa debyg godi mewn mannau eraill, er enghraifft ymysg grwpiau anabledd. Fodd bynnag, dywedodd Llywodraeth Cymru wrthym:

> "It is rather different in terms of how our funding works. We are at the moment consulting about the future of our grants programme on equality. One of the key questions we are asking there is how far should we actually be linking that funding to the objectives set in this strategic equality plan; what should be the balance between core funding and project funding."[139]

200. Wrth symud ymlaen, rydym o'r farn na ddylai Llywodraeth Cymru geisio darparu arian 'Cymru gyfan' drwy gorff cyfryngu, os nad oes gan y corff hwnnw gysylltiadau cryf â chyfansoddiad daearyddol Cymru drwyddi draw. Mae hefyd yn bwysig fod corff sy'n dosbarthu arian 'Cymru gyfan' yn gallu dangos ei fod yn wir yn cynrychioli'r gymuned y mae'n gweithredu ar ei rhan. Wrth wneud y sylwadau hyn, nodwn, er i AWEMA basio arian WEFO a Chymunedau yn Gyntaf i bartneriaid eraill a oedd wedi'u henwi mewn prosiectau a gâi eu cefnogi drwy'r arian hwnnw, nad oedd ganddi rôl yn dosbarthu grantiau i gyrff eraill yng Nghymru.

201. Nodwn hefyd fod Llywodraeth Cymru bellach wedi sefydlu corff newydd, "Fforwm Hil Cymru", a fydd yn dwyn cyrff amrywiol sydd â buddiant mewn materion cydraddoldeb hil ynghyd. Cyfarfu'r fforwm am y tro cyntaf ar 22 Chwefror 2012, ychydig cyn i Lywodraeth Cymru gyhoeddi ei bod yn rhoi'r gorau i ariannu AWEMA.[140] Rydym yn rhagweld y bydd fforwm o'r fath yn gyfrwng tecach i symud

---

[138] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 3 Rhagfyr 2012, Para 54
[139] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 3 Rhagfyr 2012, Para 39
[140] Swyddfa Archwilio Cymru, Cydberthynas Llywodraeth Cymru â Chymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan, Para 2.86

cyfrifoldebau Llywodraeth Cymru o ran materion cydraddoldeb hil ymlaen.

**Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cydnabod – er bod manteision yn gallu deillio o ddefnyddio cyrff ymbarél – y bydd unrhyw agwedd ar reolaeth wael yn unrhyw un ohonynt yn arwain at fwy o risg ac ôl-effeithiau difrifol posibl i gyrff eraill sy'n dibynnu ar gefnogaeth (ariannol neu fel arall) gan y cyrff hyn. Pan fydd yn defnyddio corff ymbarél, dylai Llywodraeth Cymru ddatgan y rhesymau am ei ddefnyddio yn glir ac yn gyhoeddus.**

### Hyfforddiant fel bod modd monitro'n well

202. Er mwyn i unrhyw fath o fonitro fod yn effeithiol, yn naturiol bydd angen hyfforddiant digonol ar swyddogion Llywodraeth Cymru. Dywedodd y Gronfa Loteri Fawr wrthym:

> "All of our funding officers, when they join the organisation, undertake a detailed induction, which takes them through the application process and the assessment process. They are then required to have the support of a funding manager. We have a situation where the funding manager would be allocated a sample of that individual's work, right the way through the lifetime of their work, as a quality check. They also have the ability to be able to refer their work upwards. So, a general induction takes place, and there are also mandatory elements of training that are undertaken by all staff across the organisation, such as fraud awareness training, which is on an ongoing basis. I am aware that, currently, our human resources department is in discussion with the University of Derby about an accredited grant-making course, so that the staff who work for us will be able gain formal credits to support their career development."

203. Yn ein hadroddiad interim, nodasom fod Llywodaeth Cymru wedi dweud y byddai'r prosiect Rheoli Grantiau yn darparu hyfforddiant i'w rheolwyr grantiau ac aelodau staff mewnol eraill. Dywedodd Llywodraeth Cymru wrthym y byddai'r hyfforddiant hwn yn darparu gwell dealltwriaeth o amcanion, targedau a threfniadau cychwynnol effeithiol. Dywedodd Llywodraeth Cymru ei bod am wneud yn siŵr:

> "…that grants managers understand what clear objectives and targets look like, that there is clarity around terms and conditions, and that we have effective and regular monitoring within the Welsh Government to ensure that, over time, the reasons why we gave the money were still translating into making a difference."[141]

204. Fodd bynnag, cydnabu Llywodraeth Cymru hefyd y byddai angen i hyfforddiant o'r fath fod yn barhaus, a dywedodd:

> "There is no quick silver bullet to this; it is about continuously training and educating 2,000 people, which is a big undertaking to keep people up to the levels and the standards."[142]

205. Nodwyd gennym fwriad Llywodraeth Cymru i'w gwneud yn bosibl darparu hyfforddiant achrededig i reolwyr grantiau. Roeddem o'r farn hefyd y dylai'r Prosiect Rheoli Grantiau fonitro pa mor effeithiol y caiff hyfforddiant o'r fath ei roi ar waith. Argymellasom fod Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn bosibl darparu hyfforddiant achrededig i reolwyr grantiau. Fel rhan o hyn, argymellasom fod Llywodraeth Cymru'n monitro pa mor effeithiol y caiff hyfforddiant o'r fath ei roi ar waith gan reolwyr grantiau.

206. Roeddem yn falch fod Llywodraeth Cymru wedi derbyn yr argymhelliad hwn a'i bod yn bwrw ymlaen i hyfforddi'i rheolwyr grantiau, yn cynnwys rhai elfennau o ardystio.[143] Dywedodd yr Ysgrifennydd Parhaol wrthym:

> "the process that we will be taking forward for improving grants management generally will include training for everybody involved to improve their sensitivity to what might appear at the time to be light-touch or almost casual information, but which, in the context of a grant-giving relationship, could be crucial."[144]

207. Dywedwyd wrthym hefyd:

---

[141] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 24 Ebrill 2012, Para 195
[142] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 24 Ebrill 2012, Para 202
[143] Ymateb Llywodraeth Cymru i Adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus: Rheoli Grantiau yng Nghymru, Tudalen 8.
[144] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 3 Rhagfyr 2012, Para 187

> "There is a suite of training—we have a new computer-based training module, two lots have been developed and we are starting to introduce that training. We have also introduced and are currently building up a central repository of due diligence information and intelligence, which will be available across the Government so that everyone will be able to access them."[145]

208. Nodwn fod hyfforddiant o'r fath wedi cael ei gyflwyno gan Lywodraeth Cymru. Wrth symud ymlaen, mae'n bwysig fod rheolwyr grantiau newydd yn gallu manteisio ar hyfforddiant o'r fath, ac y gall rheolwyr presennol gael hyfforddiant diweddaru priodol. Mae'n hollbwysig nad yw hyfforddiant yn rhywbeth sy'n cael ei gyflwyno a'i anghofio wedyn.

209. Ar ôl cwblhau'r hyfforddiant, nodwn y bydd Canolfan Ragoriaeth y Rhaglen Rheoli Grantiau yn cynnal hapwiriadau o raglenni grant i sicrhau bod yr hyfforddiant wedi cael effaith gadarnhaol ar reoli grantiau. Dywedodd yr Ysgrifennydd Parhaol:

> "There is also a system of spot checks being run by the grants centre of excellence, which is running at a rate of about 10 a month."[146]

210. Rydym yn obeithiol y caiff yr hyfforddiant hwn yr effaith yr ydym am ei gweld. Fodd bynnag, pe bai hapwiriadau'r Ganolfan Ragoriaeth yn dangos nad yw'r hyfforddiant wedi cael effaith ddigonol, gallai fod yn briodol ailwampio peth o'r hyfforddiant. Er enghraifft, er ei bod weithiau'n bosibl cyflwyno hyfforddiant ar-lein yn gyflym, nid yw ei effaith wastad yn para cystal â hyfforddiant wyneb yn wyneb. Yn yr un modd, rhaid aros i weld a fydd yn ddigon effeithiol yn y tymor hir i Lywodraeth Cymru wreiddio'i hyfforddiant rheoli grantiau mewn rhaglen hyfforddiant sefydlu i'r holl staff sy'n ymuno â'r sefydliad[147] a rhaglen o hyfforddiant parhaus ar arfarnu a rheoli prosiectau.[148] Rydym yn disgwyl y bydd Llywodraeth Cymru'n adolygu'i rhaglen hyfforddiant rheoli grantiau yng ngoleuni hapwiriadau'r Ganolfan Ragoriaeth.

211. Nodwn hefyd fod WCVA wedi dweud:

---

[145] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 3 Rhagfyr 2012, Para 196
[146] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 3 Rhagfyr 2012, Para 197
[147] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 3 Rhagfyr 2012, Para 191
[148] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 3 Rhagfyr 2012, Para 191

> "[we would] like to be assured that training in, understanding of, and compliance with the third Sector Funding Code of Practice is central to this training for any officers working with the third sector."[149]

212. Byddem yn gwahodd Llywodraeth Cymru i egluro a fydd ei hyfforddiant rheoli grantiau yn cynnwys deall y Cod Ymarfer ar gyfer Ariannu'r Trydydd Sector a chydymffurfio ag ef.

**Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gwerthuso effeithiolrwydd yr hyfforddiant y mae wedi'i gyflwyno ar gyfer Rheolwyr Grantiau.**

### 'Amodi' hawliadau grant awdurdodau lleol

213. Dangosodd adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol, *Rheoli Grantiau yng Nghymru 2011*, y bu cynnydd cyson er 2005-06 yn y ganran o hawliadau grant sy'n cael eu hamodi gan archwilwyr a / neu eu haddasu.[150]

214. Yn ein hadroddiad interim, nodasom fod amrywiadau sylweddol iawn hefyd yn y lefelau o hawliadau grant sy'n cael eu hamodi neu'u haddasu ar draws 22 awdurdod unedol Cymru. Roedd mwy na chwarter hawliadau grant dros hannes y cynghorau am 2009-10 wedi cael eu hamodi a / neu eu haddasu, a chafodd 60 y cant o hawliadau un cyngor  eu haddasu neu eu hamodi. Mewn cyferbyniad, mewn pedwar cyngor roedd y gyfradd amodi yn llai na 10 y cant, ac roedd gan un cyngor record berffaith yn 2009-10.[151]

215. Yn ein hadroddiad interim, mynegwyd ein siom nad oedd camau wedi cael eu cymryd i ymdrin â pherfformiad gwael awdurdodau lleol o ran hawliadau a datganiadau'n cael eu hamodi. Gwnaethom argymell bod Llywodraeth Cymru'n dal awdurdodau lleol i gyfrif lle mae cyfraddau uchel o'u hawliadau grant wedi cael eu hamodi neu'u haddasu. Fel rhan o hyn, dywedasom y gallai Llywodraeth Cymru efallai ystyried dal arian yn ôl oddi wrth awdurdodau lleol onid yw'r achosion o amodi hawliadau grant yn digwydd yn llai aml.

---

[149] Rheoli Grantiau yng Nghymru, Sylwadau pellach i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, WCVA.

[150] Swyddfa Archwilio Cymru, *Rheoli Grantiau yng Nghymru 2011,* Para 2.28 i 2.29 ac Arddangosyn 7

[151] Swyddfa Archwilio Cymru, *Rheoli Grantiau yng Nghymru 2011,* Para 2.30 ac Arddangosyn 8

Argymellasom hefyd fod Llywodraeth Cymru'n cynnal deialog gyda CLlLC gyda'r nod o sicrhau bod achosion o amodi hawliadau grant awdurdodau lleol yn digwydd yn llai aml.

216. Rydym yn falch fod Llywodraeth Cymru wedi derbyn yr argymhellion hyn. Rydym yn deall y bydd Llywodraeth Cymru, mewn deialog â CLlLC, Swyddfa Archwilio Cymru ac awdurdodau lleol unigol yn tracio'r achosion o hawliadau sy'n cael eu hamodi neu'u haddasu. Deallwn y bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn tracio patrymau o amodi tystysgrifau grant ac yn sicrhau bod camau cywiro priodol yn cael eu cymryd. Nodwn fod Llywodraeth Cymru wedi annog cydweithio rhanbarthol ymysg awdurdodau lleol mewn perthynas ag ardystio grantiau. Credwn fod hwn yn gyfle i hyrwyddo arferion da, ac y dylai cydweithio o'r fath gael ei arwain gan awdurdodau lleol sydd â record gref yn y maes hwn.

**Mynd i'r Afael â Thwyll**

217. Yn ein hadroddiad interim ar reoli grantiau, nodwyd bod Llywodraeth Cymru eisoes yn rhoi amryw o fesurau ar waith – mewn cydweithrediad â WCVA – i wella trefniadau llywodraethu sefydliadau.

218. Roeddem o'r farn mai un mesur arall y gellid ei roi ar waith fyddai annog rhagor o sefydliadau i gymryd rhan yn y Fenter Dwyll Genedlaethol (NFI) – gan gydnabod bod hynny yn golygu rhai costau ariannol. Er nad yw cymryd rhan yn yr NFI, a mynd ar drywydd pryderon a nodir, yn amlwg yn ateb i bob problem er sicrhau uniondeb a llywodraethu da, credem y gallai helpu i amlygu materion sy'n berthnasol i lywodraethu da o safbwynt rheoli arian cyhoeddus.

219. Roeddem yn cydnabod y byddai angen i ofyniad ar i sefydliadau gymryd rhan yn yr NFI fod yn gymesur â'r amgylchiadau, o ystyried:

- maint y sefydliad;
- faint o arian y byddai'n ei gael;
- materion yn ymwneud ag amseriad a hyd y cyfnod ariannu (o gofio mai unwaith bob dwy flynedd y rhoddir y Cynllun Twyll Cenedlaethol ar waith).

220. Argymellasom, felly – o ystyried yr angen i fod yn gymesur a chynnal prosesau caffael priodol – y dylai Llywodraeth Cymru gynnwys, yn ei delerau a'i amodau ar gyfer grantiau a mathau eraill o ariannu, ofyniad ar i'r cyrff sy'n derbyn arian gymryd rhan yn yr NFI.

221. Rydym yn falch fod Llywodraeth Cymru wedi derbyn yr argymhelliad hwn, ac wedi cytuno i gynnwys pŵer wrth gefn i'w gwneud yn ofynnol cyflwyno data. Nodwn eiriau'r Archwilydd Cyffredinol:

> "[although] there would be little benefit in many grant recipients participating in the general exercise… a new reserve power to require participation in a specific relevant future NFI exercise is most welcome. I am also pleased to note the Welsh Government's commitment to work with me to extend NFI participation to other organisations in Wales."[152]

[152] Swyddfa Archwilio Cymru, Rheoli Grantiau yng Nghymru – Ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad interim y Pwyllgor, 26 Tachwedd 2012.

# 3. Gweithredu mewn ymateb i dynnu sylw at faterion

222. Yn amlwg, pan dynnir sylw at faterion wrth fonitro grantiau – neu fecanwaith ariannu arall – mae'n hafnodol fod camau priodol yn cael eu cymryd mewn ymateb. Mae tynnu sylw at faterion o'r fath yn gyfle tyngedfennol i sefydliadau wella – boed hynny drwy fynd i'r afael â gwendidau mewn prosiectau penodol y maen nhw'n gwneud cais am grant tuag atynt, rheoli risg, neu wella fframweithiau llywodraethu.

**Ofni gweithredu**

223. Roeddem yn poeni a oedd ar swyddogion Llywodraeth Cymru ofn gweithredu'n gynt efallai mewn ymateb i'r materion yn ymwneud ag AWEMA y tynnwyd sylw atynt, rhag iddynt gael eu beirniadu'n gyhoeddus. Roeddem yn ymwybodol fod gweision sifil yn aml yn cael eu stereoteipio fel pobl amharod i gymryd risg, ac roeddem yn awyddus i ystyried a oedd yr ofn o gael beirniadaeth gyhoeddus wedi golygu na chafodd pryderon eu gwyntyllu.

224. Holwyd swyddogion Llywodraeth Cymru yn fanwl ynglŷn â hyn:

> "Was that the feeling at the time?... there may have been some reluctance [amongst civil servants] to get involved in making some of the tough decisions that needed to be made at that time to stop the funding for that organisation?"[153]

225. Mewn ymateb i'n cwestiynau, nodasom fod swyddogion Llywodraeth Cymru wedi ateb yn gadarn:

> "If the question is whether I [the Welsh Government's Director of Governance] was aware of any inappropriate reluctance or interference to hold back that report, the answer is 'no'."[154]

226. Mae adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru yn nodi bod cyflwyniad i'r Gweinidog a oedd yn gyfrifol am gydraddoldebau yn 2005 (Jane Hutt) a'r Prif Weinidog ar y pryd (Rhodri Morgan), yn sgil cwblhau adolygiad IMANI Consultancy Services, yn cyfeirio at:

> "risg i enw da Llywodraeth Cymru pe bai'r uned [cydraddoldebau] yn rhoi'r gorau i ariannu AWEMA".[155]

[153] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 3 Rhagfyr 2012, Para 79
[154] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 3 Rhagfyr 2012, Para 80

227. Deallwn fod y pryder hwn wedi cael ei gyflwyno yng nghyd-destun y ffaith fod Llywodraeth Cymru ar fin cychwyn ar ei ail gynllun cydraddoldeb hiliol. Dywedodd swyddogion Llywodraeth Cymru:

> "the submission from January 2005 that noted that terminating funding for AWEMA would represent 'a reputational risk'; I think that that was the phrase used. However, having now read that submission in preparation for this committee, I and colleagues in the office read that as a reflection of the reputational risk to the Welsh Government if funding for AWEMA was withdrawn, because of the race equality plan."[156]

228. Dywed adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru hefyd fod Llywodraeth Cymru wedi wynebu beirniadaeth allanol cyn hynny, yn cynnwys beirniadaeth o du AWEMA, yn ymwneud ag ansawdd drafft gwreiddiol yr ail gynllun cydraddoldeb hiliol a pha un a oedd yn cydymffurfio â'r gofynion deddfwriaethol.[157] Dywed yr adroddiad fod uned cydraddoldebau Llywodraeth Cymru, ers ei chreu yn 1999, wedi wynebu problemau yn ymwneud â pherfformiad gwael a diffyg sefydlogrwydd o ran staffio, strwythurau a'r llinellau adrodd i Weinidogion. Mae'r adroddiad yn amlygu rhai problemau neilltuol y rhoddwyd gwybod i Wasanaethau Archwilio Mewnol Llywodraeth Cymru amdanynt ym mis Medi 2003 a mis Chwefror 2005.[158]

229. Mae adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru hefyd yn dweud bod Canolfan Cydweithredol Cymru wedi cael ei gyhuddo gan Brif Weithredwr AWEMA yn 2006 o fod yn "sefydliadol hiliol", pan gafodd cais am gyllid ei wrthod.[159]

230. Dywedodd cyn Gadeirydd AWEMA ei bod hi ei hun wedi dysgu:

> "never to use [the words] 'racism' or 'racist', because it closes conversations down and dissolves too easily into attitudes of self-righteousness and defensiveness… I have not charged racism against anyone in this whole sorry saga. The BBC made

---

[155] Swyddfa Archwilio Cymru, Cydberthynas Llywodraeth Cymru â Chymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan, Para 2.28
[156] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 3 Rhagfyr 2012, Para 81
[157] Swyddfa Archwilio Cymru, Cydberthynas Llywodraeth Cymru â Chymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan, Nodyn Para 2 at Ffigur 6
[158] Swyddfa Archwilio Cymru, Cydberthynas Llywodraeth Cymru â Chymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan, 2.77-2.86
[159] Swyddfa Archwilio Cymru, Cydberthynas Llywodraeth Cymru â Chymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan, Para Ffigur 4 ar Dudalen 33

that direct attribution to me in its published online comment and it used quotation marks around those words. I challenged it and was able to demonstrate that I had never used those words."[160]

231. Mewn ymateb i'r sylwadau hynny, dyweodd Cadeirydd ein Pwyllgor:

> "people respond to… remarks when they are attributed to someone and we do not see anyone challenging those remarks. I was not aware that you had challenged any of those remarks. However, a charge of institutional racism has been made in the past by AWEMA, has there not, in respect of the Communities@One programme, which it applied to, which is owned by the Wales Co-operative Centre."[161]

232. Dywedodd cyn Gadeirydd AWEMA:

> "I was not aware that that charge had been made until I read what I read in the Wales Audit Office report. I simply was not aware of it. I am aware of what institutional racism is, and I am not surprised to see that it occurs. I do not think that any of us should be."[162]

233. Rydym yn credu na ddylai darparu adborth i sefydliadau mewn ymateb i faterion a nodir wrth fonitro beri pryder i Lywodraeth Cymru. Yn wir, dywedodd y Gronfa Loteri Fawr, ymhell o gael ei beirniadu:

> "I am not aware that we ever received any particularly negative feedback at all. It is not unusual for us to reject projects. We consider probably upwards of 2,000 applications a year and approximately 50% do not go further. I am personally not aware of any direct feedback from AWEMA in relation to rejected applications, although it is highly likely that there would have been telephone calls afterwards had AWEMA asked for feedback additional to the information that we would have given it in any reject letter."[163]

---

[160] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 3 Rhagfyr 2012, Para 336 and 337
[161] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 3 Rhagfyr 2012, Para 360
[162] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 3 Rhagfyr 2012, Para 365
[163] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 3 Rhagfyr 2012, Para 278

**Effaith 'ymyrraeth wleidyddol' mewn ymchwiliad**

234. Mynegodd cyn Gadeirydd AWEMA bryder arbennig yn ystod ei thystiolaeth lafar y byddai trafodaeth wleidyddol yn anochel yn dylanawdu ar weision sifil wrth iddynt benderfynu pa gamau i'w cymryd mewn ymateb i faterion y tynnir sylw atynt. O ran y pryderon a ddaeth i'r amlwg ym mis Rhagfyr 2011, dywedodd:

> "officials, precisely because they do not work in an ivory tower, but in the real world, are open to all its influences, and so cannot avoid being influenced by the politics that go on around them. Of course they are influenced by what is in the ether; it would be foolish to suggest otherwise, hence it is important for politicians to avoid, or at least to carefully temper, public comment that may unduly influence, or be seen to influence, officials' decisions."[164]

235. Nododd hyn, er enghraifft:

> "at a Plenary session you, Chair, rhetorically asked whether the end of the road had come for AWEMA. These prejudicial comments followed 20 days, at least, of constant, strident, partial and often ill-informed interventions by AMs of all opposition parties, including their leaders, against AWEMA, which fed into, and legitimated, an unremitting negative media. All of that was at a time when radio silence should have been observed by all politicians in order to avoid influence during the conduct of that review."[165]

236. Dywedodd cyn Gadeirydd AWEMA wrthym nad oedd hi ei hun, oherwydd y pryderon hyn, wedi siarad â'r cyfryngau ar y materion hyn,[166] ar wahân i un achlysur pan ymddangosodd ar *Dragon's Eye*.[167]

237. Cydnabu swyddogion Llywodraeth Cymru fod sylw gwleidyddol a sylw yn y cyfryngau yn creu argraff a bod angen ymateb brys i'r honiadau a godwyd ynglŷn ag AWEMA. Dywedodd un swyddog wrthym:

> "in terms of the urgency of getting the advice in to the policy people, we were under a great deal of scrutiny: we attended a

---

[164] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 3 Rhagfyr 2012, Para 342
[165] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 3 Rhagfyr 2012, Para 344
[166] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 3 Rhagfyr 2012, Para 333
[167] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 3 Rhagfyr 2012, Para 359

PAC meeting on 31 January, just about a week before, and there was also a lot of media attention—two *Dragon's Eye* programmes were run at that same time."[168]

238. Oherwydd y brys hwn, ni rannodd swyddogion Llywodraeth Cymru gopi drafft o'u hadroddiad ar yr honiadau gyda Phrif Weithredwr AWEMA, i sicrhau cywirdeb ffeithiol. Dywedodd y swyddog arwain wrthym:

> "I challenged my staff who had undertaken the audit to give me evidence for every statement that was in there and I took a conscious decision that to have shared it with the chief executive of AWEMA at that time ran the risk of delaying the process of finalisation."[169]

239. Dywedodd cyn Gadeirydd AWEMA wrthym:

> "after your Public Accounts Committee meeting at the end of January and the Permanent Secretary's remarks, I rang the senior manager. I can tell you that, during the course of that review, I must have rung either the senior manager or the head of internal audit every other day, or sent them even more memoranda about what I had discovered with regard to the accounts, including, for example, the whole gym membership bit. They did not discover all of that; we discovered all of that, as we were looking through the cheque-book stubs and so on, and we sent that information in. Of course it was going to be a critical report; we had contributed most of the criticism ourselves. So, we should have been asked to correct the report for factual accuracy and, if he did not agree with that, then he could have said so in his final report."[170]

240. Credwm ei bod yn afrealistig meddwl y bydd gweision sifil yn gwbl anymwybodol o fater sydd yn y cyfryngau ac yn yr arena wleidyddol. Fodd bynnag, rydym hefyd yn credu ei bod yn afrealistig credu na cheir trafodaeth a sylwadau unwaith y mae mater wedi cael ei wyntyllu'n gyhoeddus. Un o swyddogaethau allweddol gwrthbleidiau – ac yn wir Aelodau Cynulliad y Llywodraeth ei hun – yw dal Gweinidogion i gyfrif. Felly, gallai pobl fod wedi barnu eu bod yn

[168] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 3 Rhagfyr 2012, Para 211
[169] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 3 Rhagfyr 2012, Para 211
[170] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 3 Rhagfyr 2012, Para 478

esgeuluso'u cyfrifoldebau pe na baent wedi codi mater a oedd yn amlwg yn destun pryder cyhoeddus gyda Gweinidogion.

241. Credwn fod sicrhau bod gwaith wedi'i seilio ar ffaith, yn hytrach na dyfalu, yn rhan allweddol o rôl gweision sifil. Fel y dywedwyd yn ein hadroddiad ar 'Broses gaffael Llywodraeth Cymru a'r camau a gymerwyd ganddi i waredu Gwesty River Lodge, Llangollen', un o swyddogaethau tyngedfennol gweision sifil yw'r cyfrifoldeb i 'ddweud y gwir wrth y rhai sydd mewn grym.' Er ei bod yn afrealistig credu na fydd gweision sifil yn ymwybodol o gwbl fod mater yn destun trafod, mae'n rhesymol credu y gall gweision sifil lunio barn yn annibynnol ar drafodaeth o'r fath, ac y gallant roi gwybodaeth i Weinidogion wedyn fel eu bod nhw'n gallu ymateb i'r drafodaeth. Fel rhan o hyn, rydym o'r farn y byddai wedi bod yn rhesymol i adolygiad y Gwasanaethau Archwilio Mewnol geisio dod i gytundeb gyda chyn Gadeirydd AWEMA, ar gywirdeb ffeithiol o leiaf, cyn cymeradwyo'r adroddiad ar ei wedd derfynol.[171]

**Rydym yn argymell, fel system arfer da, y dylai Llywodraeth Cymru roi ystyriaeth ddifrifol i ddatgelu naratif adroddiad i bartïon allanol, fel bod modd ei wirio o ran cywirdeb ffeithiol, pe bai gofyn iddi ymgymryd ag adolygiad tebyg.**

242. Yn wir, ymhell o fod yn gwestiwn afresymol, credwn fod y cwestiwn a ofynnwyd i Lywodraeth Cymru, pa un a oedd AWEMA wedi dod i ben ei thaith, yn gwbl briodol. Yn yr is-adran ganlynol, rydym wedi ystyried a allai Llywodraeth Cymru fod wedi bod yn fwy tryloyw wrth ymateb yn y pen draws i'r cwestiwn hwn.

### Rhoi terfyn ar yr ariannu

243. Daw adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru i'r casgliad fod Llywodraeth Cymru wedi ymateb yn "gadarn" i'r pryderon a ddaeth i'r amlwg ynglŷn ag AWEMA ym mis Rhagfyr 2011.[172]

244. Ar 9 Chwefror 2012, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru yr adroddiad ar y cyd gan Wasanaethau Archwilio Mewnol, *Adolygiad o Effeithiolrwydd y Llywodraethu a'r Rheoli Ariannol yng Nghymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan*. Nodai'r adroddiad yr hyn yr oedd yn

---

[171] Gwneir sylw tebyg yn adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ar Gydberthynas Llywodraeth Cymru â Chymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan, Para 3.18
[172] Rhan 3 o adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ar Gydberthynas Llywodraeth Cymru â Chymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan.

ei ddisgrifio fel ‘methiannau sylweddol a sylfaenol yn fframwaith rheoli a llywodraethu AWEMA’. Ar sail canfyddiadau a chasgliadau’r adroddiad, cyhoeddodd y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ (Jane Hutt) ar 9 Chwefror 2012 fod Llywodraeth Cymru’n rhoi terfyn ar unrhyw arian yr oedd yn ei roi i AWEMA. Cyhoeddodd y Gronfa Loteri Fawr hithau y byddai’n rhoi’r gorau i’w hariannu.

245. Daw adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru i’r casgliad, tra oedd yn rhesymol o dan yr amgylchiadau comisiynu’r adolygiad gan y Gwasanaethau Archwilio Mewnol, y gallai Llywodraeth Cymru fod wedi rheoli disgwyliadau’n well o ran cwmpas y gwaith.[173]

246. Mae’r adroddiad yn nodi barn cyn Gadeirydd AWEMA am gynnwys adroddiad terfynol y Gwasanaethau Archwilio Mewnol a sut y cafodd ei drin, a’i hargraff hi fod penderfyniad Llywodraeth Cymru i roi terfyn ar yr ariannu wedi cael ei wneud heb ystyried camau y gellid bod wedi’u cymryd i wella pethau yn AWEMA. Deallwn fod cyn Gadeirydd AWEMA hefyd yn anghytuno â barn swyddogion Llywodraeth Cymru fod methiannau llywodraethu corfforaethol yn parhau yn AWEMA yn ystod cyfnod adolygiad yr Archwilwyr Mewnol.

247. Gofynasom i swyddogion Llywodraeth Cymru a oedd y penderfyniad i roi terfyn ar ariannu AWEMA wedi cael ei wneud ymlaen llaw. Dywedasant:

> “in the days prior to 9 February when the report was published, neither Huw nor Damien [the respective heads of the Equalities Unit and WEFO] had seen the report, so there were no preconceptions about the action to be taken before the report was published. All options were open in terms of what might be decided in terms of any future funding. My report does not determine whether or not there should be future funding; it just comments on how suitable or fit the organisation was at that time to receive public money.”[174]

248. Fodd bynnag, dyma oedd barn swyddogion eraill yn Llywodraeth Cymru yn sgil cyhoeddi’r adroddiad:

---

[173] Adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ar Gydberthynas Llywodraeth Cymru â Chymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan, Para 3.13-3.20
[174] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 3 Rhagfyr 2012, Para 208

"the findings that Arwel had produced gave us no option; we deemed that the situation was effectively irremediable and that the shortcomings were such that we had no option."[175]

249. Gofynnodd cyn Gadeirydd AWEMA inni:

"Did I hear him correctly that he only gave that report to the funding department on 9 February, the day it was published? How can that be? This is the date of its letters to me that terminate the funding. So, at the very least, the funding department must have had the report a few days earlier in order to make up its mind to terminate our funding, but with absolutely no notice whatsoever."[176]

250. Dywedodd cyn Gadeirydd AWEMA:

"if it was not the job of the internal audit service to make that evaluation, as the Wales Audit Office report believes, it should have asked the funding department explicitly to consider whether AWEMA could remedy the deficiencies. That is what I call transparent decision making. We do not have that in the case of the IAS report or in the funding departments' decisions. I heard Huw Brodie assert yet again this afternoon that AWEMA could not be capable of remedy. I think that that needs to be demonstrated, because there is no corporate evidence—you have heard it yourself all afternoon—of AWEMA being a failing organisation… the decision making by the funding departments, which underpinned a decision to terminate funding, should have been made transparent. We should have been able to see it. The decision at the end may have been the same. I have no idea whether it would have been the same. However, at the time of the funding departments making that decision, knowing what they knew of all the previous history, knowing that much of the blame must have lain with them for not attending to these matters ahead of time and knowing that, in the immediate previous years, accounts had always been done and so forth, we should have had an explicit analysis of why AWEMA, under its new chair—me—and under its new leadership, given the evidence that I had submitted to the IAS team, against all of the improvements that I was trying to effect

[175] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 3 Rhagfyr 2012, Para 209
[176] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 3 Rhagfyr 2012, Para 479

> in governance, was not going to be up to the job. All I am asking for is the transparency of that decision making.[177]

251. Er enghraifft, dywedodd cyn Gadeirydd AWEMA y gellid bod wedi pennu amod bod gofyn i'r sefydliad, cyn y câi ei ariannu eto, newid yr uwch reolwyr yn llwyr.[178]

252. Nodwn i Lywodraeth Cymru gyhoeddi adroddiad y Gwasanaethau Archwilio Mewnol, a olygai fod modd i'w gasgliad fod 'methiannau sylweddol a sylfaenol yn fframwaith rheoli a llywodraethu AWEMA' gael ei ystyried mewn ffordd dryloyw.

253. Yr hyn nad ydym yn glir yn ei gylch yw'r union resymeg wrth wraidd asesiad Llywodraeth Cymru fod y sefyllfa y tu hwnt i'w hadfer.[179] Credwn y byddai wedi bod yn rhesymol i Lywodraeth Cymru fod wedi mynegi'r rhesymeg wrth wraidd ei phenderfyniad i roi'r gorau i ariannau AWEMA (yn hytrach nag – er enghraifft – weithredu i geisio mynd i'r afael â'r methiannau yn fframwaith llywodraethu AWEMA). Credwn y byddai mynegi'r rhesymeg wrth wraidd rhoi'r gorau i'r ariannu hefyd wedi lleihau'r perygl i benderfyniad o'r fath gael ei weld fel un brysiog, o gofio bod y penderfyniad hwn yn ôl pob tebyg wedi cael ei wneud yr un diwrnod ag y cyhoeddwyd adroddiad y Gwasanaethau Archwilio Mewnol.

254. Yn arbennig, roedd cyn Gadeirydd AWEMA o'r farn fod tryloywder digonol ynglŷn â phenderfyniad y Gronfa Loteri Fawr i dynnu'i harian i AWEMA yn ol, a dywedodd:

> "a withdrawal letter was sent with a whole set of reasons as to why it was being withdrawn, and it was up to us to demonstrate why it should not be... That is a much better way of doing it; it is much more explicit."[180]

**Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn mynegi'n glir ac yn benodol ei rhesymeg am roi terfyn – neu gwtogi'n sylweddol – ar yr arian y mae'n ei roi i unrhyw sefydliad sy'n cael grant, cyn i arian y sefydliad hwnnw gael ei derfynu (neu ei gwtogi'n sylweddol). Dim ond i'r sefydliad dan sylw y byddem yn disgwyl i'r rhesymeg hon gael ei darparu fel arfer.**

---

177 Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 3 Rhagfyr 2012, Para 494
178 Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 3 Rhagfyr 2012, Para 483
179 Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 3 Rhagfyr 2012, Para 209
180 Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 3 Rhagfyr 2012, Para 497

### *Yr angen am eglurder yn ystod proses ddiddymu*

255. Mae adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru yn nodi bod swyddogion Llywodraeth Cymru'n cydnabod eu bod, er gwaethaf rhai profiadau blaenorol, ar dir dieithr yn eu hymdrechion i geisio sicrhau bod cymaint â phosibl o arian cyhoeddus yn cael ei ddychwelyd oddi wrth AWEMA. Am y rheswm hwnnw, talodd Llywodraeth Cymru am wasanaeth cyfreithiwr sy'n arbenigo mewn gwasanaethau masnachol i ymuno ag aelodaeth y Grŵp Gorchwyl a Gorffen yr oedd yr Ysgrifennydd Parhaol ar y pryd wedi'i sefydlu ym mis Chwefror 2012 i gyd-drefnu gweithredu Llywodraeth Cymru.[181]

256. Dywed yr adroddiad – er nad oedd canlyniad y broses ddiddymu'n hysbys pan gafodd ei gyhoeddi – ei bod yn glir na fydd Llywodraeth Cymru'n adennill y rhan fwyaf o'r £545,966 y mae'n credu erbyn hyn sy'n ddyledus iddi gan AWEMA. Roedd hyn am fod hawliadau Llywodraeth Cymru yn llawer mwy na'r symiau sydd ar gael i ad-dalu credydwyr a, hyd yn oed wedyn, byddai yna gredydwyr y rhoddir blaenoriaeth iddynt, a fydd â'r hawl gyntaf ar asedau AWEMA. Rydym wedi gofyn i Lywodraeth Cymru roi gwybodaeth ddiweddaru inni am yr arian y mae wedi'i adennill, pan fydd y wybodaeth honno ar gael.

257. Nodai'r adroddiad fod AWEMA'n anghydweld â swm y ddyled a bod AWEMA wedi gwneud gwrth-hawliadau am daliadau gan uned cydraddoldebau Llywodraeth Cymru gwerth £70,065 i gyd. Mae a wnelo rhan o'r ddyled y cred Llywodraeth Cymru sy'n ddyledus iddi â gwariant anghymwys a nodwyd gan WEFO yn dilyn gwaith pellach gan ei Thîm Arolygu a Gwirio Prosiectau.[182]

258. Dywed yr adroddiad fod yna, i ddechrau, ddiffyg eglurder yng ngohebiaeth Llywodraeth Cymru gydag AWEMA ynglŷn â'r symiau yr oedd Llywodraeth Cymru'n credu eu bod yn ddyledus iddi, a bod yr ohebiaeth yn rhannol anghywir.

259. Roedd gwahaniaeth barn hefyd (rhwng Llywodraeth Cymru ac AWEMA) ynglŷn â hawliadau Llywodraeth Cymru yn erbyn arian yng nghyfrif banc AWEMA.[183] Dywed yr adroddiad ei bod wedi cymryd tan

[181] Adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ar Gydberthynas Llywodraeth Cymru â Chymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan, Para 3.21-3.23
[182] Adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ar Gydberthynas Llywodraeth Cymru â Chymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan, Para 3.26-3.39
[183] Adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ar Gydberthynas Llywodraeth Cymru â Chymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan, Para 3.26-3.39

ddechrau Mai 2012 i Lywodraeth Cymru benderfynu y byddai'n gweithredu fel credydwr ansicredig, ar ôl cael cyngor cyfreithiol ynglŷn â'r gobaith o ddadlau'n llwyddiannus yn y llys y gellid dweud bod arian WEFO'n cael ei ddal ar ymddiried. Wrth ddod i'r penderfyniad hwn, ystyriodd Llywodraeth Cymru hefyd gostau tebygol unrhyw achos cyfreithiol iddi hi ac i AWEMA.

260. Mae'r adroddiad yn annog Llywodraeth Cymru i gynnal ymarferiad gwersi-a-ddysgwyd o ran y ffordd yr ymdriniodd â'r sefyllfa'n ymwneud ag AWEMA'n methdalu er mwyn ei helpu i ddatblygu canllawiau mewnol.[184] Rydym yn falch fod Llywodraeth Cymru, mewn tystiolaeth ysgrifenedig, wedi dweud wrthym y byddai'n crisialu'r gwersi a ddysgwyd ar gyfer y dyfodol ac y bydd y Prosiect Rheoli Grantiau yn datblygu canllawiau i ddangos i swyddogion pa gamau y dylid eu cymryd pan gaiff pryderon ariannol eu codi gan sefydliadau partner.

261. Nododd cyn Gadeirydd AWEMA mai cyngor y diddymwr, yn hytrach nag eglurder o du Llywodraeth Cymru, oedd wedi'i galluogi hi i lywio'r sefydliad drwy'i ddyddiau olaf:

> "I was left in a very difficult position, because I had no idea what to do. The first letter tells you that you cannot spend any money, and only the second letter on the tenth—which I got on whatever that Monday was, the thirteenth I suppose, although he did e-mail it to me as well—suggested that he was not going to stand in the way of 'normal running costs', which is what I think he said. However, to be frank, for most of my advice about what we should or could spend, I relied on the liquidators, the insolvency practitioners, once they were appointed. They were absolutely clear as to what could be spent and what could not be spent, and I followed their advice to the letter."[185]

262. Cytunwn ag argymhelliad Swyddfa Archwilio Cymru y dylai Llywodraeth Cymru gynnal ymarferiad gwersi-a-ddysgwyd o ran y ffordd yr ymdriniodd â'r sefyllfa'n ymwneud ag AWEMA'n methdalu, i helpu i ddatblygu canllawiau mewnol.[186] Credwn y dylai hyn gynnwys yr hyn a ddysgwyd gan y gweithwyr sifil a oedd â rhan yn y gwaith o

[184] Adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ar Gydberthynas Llywodraeth Cymru â Chymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan, Argymhelliad 3
[185] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 3 Rhagfyr 2012, Para 506
[186] Adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ar Gydberthynas Llywodraeth Cymru â Chymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan, Argymhelliad 3

ddelio â'r sefyllfa, ond dylai hefyd gynnwys yr hyn a ddysgwyd gan bartïon priodol eraill.

## Tystion

Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth lafar gan y tystion a ganlyn ar y dyddiadau a nodir isod. Gellir gweld trawsgrifiadau llawn o'r holl sesiynau tystiolaeth yn www.senedd.cynulliadcymru.org/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=2455

*3 Rhagfyr 2012*

| | |
|---|---|
| Dr Rita Austin | Cyn-gadeirydd AWEMA i'r cyfarfod. |
| 3 Rhagfyr | *Llywodraeth Cymru* |
| Derek Jones, | *Yr Ysgrifennydd Parhaol, Llywodraeth Cymru* |
| Damien O'Brien, | 263. Prif Weithredwr, Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru |
| Huw Brodie, | Cyfarwyddwr Cynllunio Strategol a Chydraddoldeb |
| David Richards, | 264. Cyfarwyddwr Llywodraethu |
| Arwel Thomas, | 265. Dirprwy Gyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol a Sicrwydd |
| John Rose, Cyfarwyddwr Cymru, Y Gronfa Loteri Fawr | 266. Y Gronfa Loteri Fawr<br>267. |

| | |
|---|---|
| 31Ionawr 2012 | Llywodraeth Cymru |
| Y Fonesig Gillian Morgan | Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru |
| Michael Hearty | Cyfarwyddwr Cyffredinol Cynllunio Strategol, Cyllid a Pherfformiad |
| Arwel Thomas | Pennaeth Llywodraethu Corfforaethol |

| | |
|---|---|
| *24 Ebrill 2012* | *Llywodraeth Cymru* |
| Y Fonesig Gillian Morgan | Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru |
| Michael Hearty | Cyfarwyddwr Cyffredinol Cynllunio Strategol, Cyllid a Pherfformiad |

| | |
|---|---|
| Arwel Thomas | Pennaeth Llywodraethu Corfforaethol |
| *8 Mai 2012* | *Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru* |
| Jon Rae | Cyfarwyddwr Adnoddau |
| Mari Thomas | Swyddog Polisi |
| *29 Mai 2012* | *Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru* |
| Graham Benfield | Prif Weithredwr |
| Phil Jarrold | Dirprwy Brif Weithredwr |

## Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig

268. Darparodd yr unigolion a'r sefydliadau a ganlyn dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor. Gellir gweld yr holl dystiolaeth ysgrifenedig yn llawn yn www.senedd.cynulliadcymru.org/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=2455

| **Sefydliad** | **Cyfeirnod** |
|---|---|
| Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru | PAC(4) 07-12 Papur 1 |
| Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru | PAC(4) 09-12 Papur 1 |
| Llywodraeth Cymru | PAC(4) 28-12 – Papur 1 |
| 269. Y Gronfa Loteri Fawr | PAC(4) 28-12-Papur 2 |